



# Datblygu a rheoli mannau chwarae

Pecyn cymorth cymunedol



Ebrill 2021

© Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i gadw mewn system adfer electronig na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr, ar wahân i'r:

- Esiampl o femorandwm cyd-ddealltwriaeth
- Esiampl o bolisi rheoli risg
- Esiampl o ffurflen asesu risg-budd
- Taflen archwiliad man chwarae
- Holiadur chwarae'r tu allan
- Gwiriadau man chwarae cyffredin
- Taflen sgorio – mynegi diddordeb

ISBN: 978-1-9160226-5-2

PEDWERYDD ARGRAFFIAD – golygwyd gan Ludicology

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

Chwarae Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

**[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)**

Elusen gofrestredig rhif: 1068926



# Cynnwys

<b>Cefndir</b>	<b>4</b>
<b>Dylunio</b>	
<b>Adran 1:</b> Archwiliadau manau chwarae	<b>9</b>
<b>Adran 2:</b> Caniatâd	<b>16</b>
<b>Adran 3:</b> Cyfranogaeth ac ymgysylltu	<b>18</b>
<b>Adran 4:</b> Llunio partneriaethau	<b>24</b>
<b>Adran 5:</b> Egwyddorion dylunio manau chwarae	<b>28</b>
<b>Adran 6:</b> Egwyddorion dylunio manau chwarae cynhwysol	<b>31</b>
<b>Adran 7:</b> Safonau offer ardaloedd chwarae	<b>34</b>
<b>Adran 8:</b> Arwynebau Esmwytho Ardrawiadau (IAS)	<b>36</b>
<b>Adran 9:</b> Caffael – y broses dendro	<b>38</b>
<b>Adran 10:</b> Ariannu	<b>43</b>
<b>Rheoli</b>	
<b>Adran 11:</b> Rheoli risg	<b>45</b>
<b>Adran 12:</b> Taflen asesu risg-budd	<b>50</b>
<b>Adran 13:</b> Yswiriant	<b>51</b>
<b>Adran 14:</b> Arwyddion	<b>52</b>
<b>Adran 15:</b> Cynnal a chadw ac archwilio	<b>53</b>
<b>Adran 16:</b> Cynllunio manau ar gyfer chwarae	<b>56</b>

# Cefndir

## Ar gyfer pwy mae'r pecyn hwn?

Mae'r pecyn cymorth *Datblygu a rheoli mannau chwarae* wedi ei ddylunio ar gyfer unrhyw un sy'n derbyn cyfrifoldeb am reoli neu ddatblygu man chwarae mewn cymuned. Gallai fod yn gyngor cymuned, yn gymdeithas chwarae leol neu'n grŵp o drigolion.

Wrth gyfeirio at 'fannau chwarae', rydym yn golygu man sydd wedi ei greu gyda'r bwriad o gefnogi chwarae plant. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd chwarae penodedig, a ddarperir yn benodol ar gyfer chwarae, yn ogystal â mannau cyhoeddus eraill y gellid chwarae arnynt – mannau sydd â swyddogaethau eraill yn ogystal â chwarae ond sy'n cynnwys nodweddion chwarae er mwyn annog chwarae hefyd.

## Pam ddatblygwyd y pecyn hwn?

Bwriedir i *Datblygu a rheoli mannau chwarae* fod yn ffynhonnell cefnogaeth a chyfeirio unigol ar gyfer grwpiau cymunedol, i lywio eu ffordd trwy rai o'r heriau o reoli neu ddatblygu man chwarae. Trwy hyn, mae'n anelu i gefnogi pobl i greu a chynnal a chadw mwy o fannau cymunedol, wedi eu dylunio'n well, a thrwy hynny wella cyfleoedd plant i chwarae.

Hwn yw'r pedwerydd argraffiad o'r pecyn cymorth, a adolygwyd yn 2020 i sicrhau bod y wybodaeth yn berthnasol ac wedi'i diweddarau. Datblygwyd y pecyn cymorth yn wreiddiol gan Chwarae Cymru fel rhan o brosiect i wella mannau chwarae, gan weithio gyda'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru a Phanel Cyfran Deg Y Gronfa Loteri Fawr ar Ynys Môn.

## Sut ddylwn i ei ddefnyddio?

Mae dwy adran i'r pecyn cymorth hwn:

**DYLUNIO** – sy'n canolbwyntio ar ddylunio mannau chwarae newydd ac sy'n cynnwys pynciau fel cyfranogaeth, caffael, dylunio a rheoli risg (y cyfeirir ato'n aml fel 'iechyd a diogelwch').

**RHEOLI** – sy'n canolbwyntio ar dechnegau rheoli mannau chwarae sy'n bodoli eisoes, neu sydd newydd eu creu, ac sy'n cynnwys pynciau fel cynnal a chadw ac archwilio, rheoli risg\* ac yswiriant.

*\* Mae rheoli risg yn thema gyffredin yn nwy adran y pecyn cymorth hwn. Mae chwarae plant, o reidrwydd, yn cynnwys cyfleoedd i brofi risg a her ac, o ganlyniad, mae rheoli risg yn elfen anhepgor o ddylunio a rheoli mannau chwarae. Mae'r pecyn cymorth yn anelu i chwalu rhai o'r mythau sy'n gysylltiedig â rheoli risg ac mae'n amlinellu ffyrdd ymarferol o ddatblygu agwedd gytbwys tuag at iechyd a diogelwch.*

Gweler [tudalen 8](#) am drosolwg o'r amrywiol gamau a geir yn yr adrannau dylunio a rheoli, fydd yn eich helpu i lywio eich ffordd trwy'r pecyn cymorth hwn.

## Beth mae'r pecyn hwn wedi ei ddylunio i'w wneud?

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth gryno ac eglur ar y prif themâu dan y penawdau canlynol:

**Arweiniad** – sef darn penodol o wybodaeth y bwriedir iddo eich helpu i ddeall elfen benodol o reoli neu ddatblygu mannau chwarae.

**Cymorth** – sef templedi neu ganllawiau cam-wrth-gam, ymarferol ar gyfer cyflawni darn o waith sy'n gysylltiedig â rheoli a datblygu mannau chwarae.

**Cyfeirio** – sy'n eich cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill: yn sefydliadau, adnoddau ar y rhyngwyd, adnoddau neu gyhoeddiadau i'w lawrlwytho. Darperir gwybodaeth ychwanegol mewn blychau lliw fel hwn.

**Herio'r myth**  
Edrychir ar fythau mannau chwarae clasurol mewn blychau lliw fel hwn.

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi ei ddylunio fel y gallwch ddeddf a defnyddio'r wybodaeth os, ac fel bo angen. Mae wedi ei strwythuro fel bod y wybodaeth mewn trefn resymegol ar gyfer camau'r broses ddylunio a rheoli. Er enghraifft, bydd cyfranogaeth ac ymgysylltu'n ymddangos cyn dylunio, ddaw yn ei dro cyn caffael.

Mae gwefan Chwarae Cymru'n cynnig mynediad i fwy o wybodaeth ac adnoddau ymarferol ar ystod eang o faterion sy'n gysylltiedig â chwarae plant. Cynhyrchir cynnwys newydd yn rheolaidd, a gall ymwelwyr gofrestru i dderbyn diweddariadau trwy e-bost.

## Pa bolisiau neu ddeddfwriaethau sy'n cefnogi'r pecyn cymorth hwn?

**Hawliau plant** – Mae [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) (CCUHP) yn cynnwys 54 o erthyglau sy'n diffinio sut y dylid trin plant a'r modd y dylai llywodraethau fonitro CCUHP. Mae'r cytundeb rhyngwladol hwn, sy'n rhwymo mewn cyfraith, yn gymwys i bawb dan 18 oed. Gwarchodir hawliau plant yn neddfwriaeth Cymru trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r mesur hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi.

Yn CCUHP mae tair erthygl benodol sy'n ddefnyddiol i'w hystyried wrth ddarparu ar gyfer chwarae plant:

- **Erthygl 31:** Yr hawl i chwarae
- **Erthygl 12:** Yr hawl i ymgynghori ar faterion sy'n eu heffeithio
- **Erthygl 15:** Yr hawl i gwrdd â'i gilydd.

Yn 2013, cyhoeddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn [Sylw Cyffredinol 17](#). Mae'r ddogfen hon yn egluro ymhellach gyfrifoldebau llywodraethau cenedlaethol yng nghyd-destun hawliau Erthygl 31 (yn cynnwys hawl plant i chwarae).

Mae'r Sylw Cyffredinol yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod plant yn cael amser, lle a chaniatâd i chwarae ac mae'n tynnu sylw at ystod eang o ffactorau sy'n helpu i gyfyngu ar gyfleoedd i blant.

O dan y testun 'ffactorau ar gyfer amgylchedd delfrydol', mae'r Sylw Cyffredinol yn datgan y dylai plant gael:

- Lle hygyrch ac amser i chwarae, yn rhydd o gyfarwyddyd a rheolaeth oedolion;
- Lle a chyfleoedd i chwarae'r tu allan ar eu pen eu hunain mewn amgylchedd ffisegol amrywiol a heriol, gyda mynediad rhwydd i oedolion cefnogol, pan fo angen;
- Cyfleoedd i brofi, rhyngweithio gyda a chwarae mewn amgylcheddau naturiol a byd yr anifeiliaid;
- Cyfleoedd i fuddsoddi yn eu lle a'u hamser eu hunain er mwyn iddynt greu a thrawsnewid eu byd, gan ddefnyddio eu dychymyg a'u hieithoedd eu hunain.

**Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd** – Yn 2012, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu'n benodol er mwyn cefnogi hawl plant i chwarae gyda chyflwyniad Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru. Mae'r ddyletswydd statudol hon yn mynnu y dylai pob awdurdod lleol asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ehangu ar [Bolisi Chwarae Cymru](#) (2002) a [Chynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae](#) (2006).

Mewn cyfarwyddyd statudol i awdurdodau lleol, [Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae](#), mae Llywodraeth Cymru'n datgan:

*'Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn un hyblyg, a diddorol y gellir ei addasu a'i amrywio. Mae'n manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gymdeithasu, i fod yn greadigol a dyfeisgar, ymateb i heriau a gwneud dewisiadau. Mae'n fan cyhoeddus yr ymddiriedir ynddo lle mae plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, yn eu hamser eu hunain, ar eu telerau eu hunain.'*

Aiff Llywodraeth Cymru ymlaen i ddweud bod: *'darpariaeth chwarae o ansawdd yn rhoi'r cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd â'r canlynol neu brofi'r canlynol:*

- **Plant eraill** – o oedrannau a galluoedd gwahanol gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, trafod, cydweithio, dadlau a datrys anghydfodau.
- **Y byd naturiol** – y tywydd, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid, mwd.
- **Rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu.
- **Y pedair elfen** – daear, awyr, tân a dŵr.
- **Her ac ansicrwydd** – cyfleoedd graddol i fentro; ar lefel gorfforol ac emosiynol hefyd.
- **Newid hunaniaeth** – chwarae rôl a gwisgo i fyny.
- **Symud** – rhedeg, neidio, dringo, cydbwyso, rholio, siglo, llithro a throelli.
- **Chwarae gwyllt** – chwarae ymladd.
- **Y synhwyrau** – synau, blas, gwead, aroglau a golygfeydd.'

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**(Cymru) (2015)** – Mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn datgan bod y ddeddfwriaeth hon yn: *'ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.'*

Yn ei [ganllaw ar gyfer pobl ifanc](#), mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod er mwyn i bobl dyfu i fyny'n hapus ac yn iach, eu bod angen cael hwyl a bod hynny'n golygu cael llawer o gyfleoedd i chwarae.

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**

**(Cymru) 2014** – Mae'r ddeddf hon yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth ychwanegol. Yn y ddogfen [Gwybodaeth hanfodol](#), mae Llywodraeth

Cymru yn datgan bod lles yn cynnwys cael cyfle i chwarae, perthnasau da gyda'ch teulu a'ch ffrindiau, a bod yn rhan o'r gymuned.

**Iechyd a diogelwch** – Caiff darpariaeth chwarae ei lywodraethu gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974), Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1999) a Deddfau Atebolrwydd Meddianwyr (1957 a 1984). Mae'r deddfwriaethau hyn yn gosod dyletswydd i ofalu ar ddarparwyr, yn seiliedig ar egwyddorion 'rhesymoldeb'.

Mae [Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu](#) The Play Safety Forum (a ysgrifennwyd gan David Ball, Tim Gill a Bernard Spiegel), yn egluro nad oes unrhyw reidrwydd cyfreithiol i ddileu risg hyd yn oed ble fo plant dan sylw, fel a ganlyn:

Mae Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957 yn datgan *'Y ddyletswydd gofal cyffredin yw sicrhau y bydd yr ymwelydd (yn oedolion a phlant) yn rhesymol ddiogel tra'n defnyddio'r lleoliad.'* Mae'n datgan hefyd bod rhaid i *'feddiannwr fod yn barod i blant fod yn llai gofalus nag oedolion.'* Fodd bynnag, nid yw'r llysoedd yn ystyried bod plant yn *'ddiofal, analluog neu'n fregus mewn ystyr absoliwt.'* Y cyfan y mae'r Deddfau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn ei fynnu yw bod risgiau'n cael eu lleihau *'cyn belled a bo'n rhesymol ymarferol.'* Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr i gyflawni *'asesiad addas a digonol'* o'r risgiau sy'n gysylltiedig â safle neu weithgaredd ac i weithredu'n gyfatebol.

Aiff yr awduron ymlaen i ddweud: mae Deddf lawndal 2006 yn pwysleisio bod angen i'r llysoedd ystyried buddiannau gweithgareddau tra'n ystyried y ddyletswydd i ofalu. Felly, nid diogelwch absoliwt yw'r nod, ond y dylai mesurau *'fynegi'r cydbwysedd rhwng y budd a'r angen i blant chwarae yn erbyn dyletswydd darparwyr chwarae i ddarparu chwarae diogel'*.



Caiff yr angen yma i wneud yr hyn sy'n rhesymol ei gefnogi ymhellach gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a gyhoeddodd ddatganiad lefel uchel yn 2012 o'r enw *Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at risg*. Mae'r datganiad hwn yn ei gwneud yn gwbl glir:

- Bod chwarae'n bwysig i les a datblygiad plant
- Pan fyddwn yn cynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, nad dileu risg yw'r nod, ond yn hytrach bwysu a mesur y risgiau a'r buddiannau
- Y dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar reoli'r gwir risgiau, tra'n sicrhau neu'n cynyddu'r buddiannau – ac nid ar y gwaith papur
- Y bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eich dwyn i gyfraith a chael eich erlyn bellach y tu hwnt i bob rheswm.

**Cydraddoldeb** – Mae gan bob plentyn hawl i chwarae ond efallai y bydd ambell blentyn angen mwy o gefnogaeth nag eraill i sicrhau'r hawl honno. Wrth ddatblygu darpariaeth chwarae,

mae'n bwysig meddwl sut y bydd gwahanol blant yn cael mynediad i ac yn gwneud defnydd o'r gofod. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwarchod hawliau unigolion a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb. Mae'r Ddeddf hon yn dwyn ynghyd nifer o ddeddfwriaethau blaenorol, yn cynnwys Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) 1995.

**Cyfranogaeth** – Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn mynnu y dylai awdurdodau lleol wneud trefniadau i hybu a hwyluso cyfranogaeth plant a phlant yn eu harddegau yn y broses llunio penderfyniadau.

Mae Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru'n amlinellu saith egwyddor ar gyfer cynnwys plant a phlant yn eu harddegau mewn prosesau llunio penderfyniadau ac yn egluro'r hyn ddylai plant a phlant yn eu harddegau ei ddisgwyl wrth dderbyn gwrandawriad. Mae hyn yn cynnwys cael eu cefnogi i lunio penderfyniadau doeth, dewis os ydynt am gymryd rhan, bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifrif, mwynhau'r broses, derbyn adborth ac y bydd eu sylwadau'n gwneud gwahaniaeth.



# Proses manau chwarae

## Datblygu a dylunio

### **Adran 1: Archwiliadau manau chwarae**

Dysgu sut mae plant yn chwarae yn y gymuned

### **Adran 2: Caniatâd**

Gwirio y gallwn ddatblygu'r safle

### **Adran 3: Cyfranogaeth ac ymgysylltu**

Dysgu beth mae pobl ei eisiau a chynnwys pobl eraill

### **Adran 4: Llunio partneriaethau**

Dysgu beth mae pobl ei eisiau a chynnwys pobl eraill

### **Adran 5: Egwyddorion dylunio manau chwarae**

Dylunio'r gofod

### **Adran 6: Egwyddorion dylunio manau chwarae cynhwysol**

Dylunio'r gofod

### **Adran 7: Safonau offer ardaloedd chwarae**

Deall canllawiau a safonau

### **Adran 8: Arwynebau esmwytho ardrawiadau (IAS)**

Deall canllawiau a safonau

### **Adran 9: Caffael – y broses dendro**

Cyflogi pobl i wneud y gwaith

### **Adran 10: Ariannu**

Ariannu'r prosiect

## Rheoli

### **Adran 11: Rheoli risg**

Deall y cyfrifoldeb i reoli risg

### **Adran 12: Taflen asesu risg-budd**

Deall y cyfrifoldeb i reoli risg

### **Adran 13: Yswiriant**

Pwy sy'n yswirio'r man chwarae

### **Adran 14: Arwyddion**

Sicrhau bod y wybodaeth gywir gennym ar arwyddion

### **Adran 15: Cynnal a chadw ac archwilio**

Deall cynnal a chadw ac archwilio

### **Adran 16: Cynllunio manau ar gyfer chwarae**

Deall sut mae polisi cynllunio'n effeithio ar ein cynlluniau



## Adran 1: Archwiliadau manau chwarae



Mae archwiliad man chwarae'n offeryn gwerthfawr i'w ddefnyddio wrth reoli man chwarae sy'n bodoli eisoes neu wrth geisio datblygu man chwarae newydd. Os yw plant yn defnyddio'r ardal ar gyfer chwarae eisoes, ceir tystiolaeth o hyn. Mae'r daflen hon wedi ei dylunio i helpu i ddynodi ble mae plant yn chwarae, beth y maent yn ei wneud a pha mor aml y byddant yn defnyddio'r ardal i chwarae. Bydd yn ein helpu hefyd i sylweddoli bod arwyddion esgeuluster posibl, fel sbwriel, canghennau wedi torri ar goed, a graffiti, mewn gwirionedd yn arwyddion o ddefnydd cadarnhaol gan blant.

Tra'n edrych ar ddatblygu neu adnewyddu man chwarae, bydd gallu dynodi'r ardaloedd, y nodweddion neu'r darnau o offer gaiff eu defnyddio fwyaf a'r modd y'i defnyddir, yn helpu i sicrhau y gellir diogelu a chynnal cyfleoedd i chwarae sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â dynodi cyfleoedd i gyfoethogi ymhellach y posibiladau ar gyfer chwarae.

Yn ogystal, bydd archwiliad man chwarae trylwyr yn helpu mewn ffyrdd eraill. Yn gyntaf, mae'n elfen o'r broses cyfranogaeth ac ymgysylltu a gall ein cynorthwyo i gasglu tystiolaeth i gefnogi'r hyn y

mae'r gymuned a'r plant yn ei ddweud wrthym. Yn ail, o'i gynnal yn rheolaidd (er enghraifft, bob chwe mis), gellir ei ddefnyddio i helpu i fonitro sut, a pha mor aml, y mae'r man chwarae'n cael ei ddefnyddio.

### Meddwl am 'fforddiannau'

Mae'r term 'fforddiannau' (a fathwyd gan y seicolegydd James Gibson yn ôl yn y 1960au) yn cyfeirio at y cyfleoedd y mae amgylchedd yn eu cynnig i'r bobl ynddo. Yn y cyd-destun hwn, fe'i defnyddir i gyfeirio at unrhyw nodwedd neu elfen o ofod sy'n cynnig posibilrwydd ar gyfer chwarae neu sy'n cefnogi chwarae i ddigwydd. Mae'r syniad o fforddiannau'n ddefnyddiol gan y gall helpu i symud ein meddwl y tu hwnt i offer chwarae traddodiadol ac mae'n annog oedolion i dalu mwy o sylw i'r lluo o ffyrdd y gall hyd yn oed nodweddion di-nod gynnig cyfleoedd i chwarae. Er enghraifft, gall coed gynnig cyfleoedd i ddringo, mae bryniau'n cynnig cyfleoedd i rollo i lawr, mae tywod yn cynnig cyfleoedd i dyllu ac yn y blaen. Fodd bynnag, elfen bwysig arall yw os gall plant a phlant yn eu harddegau wneud defnydd o'r cyfleoedd posibl hyn i chwarae mewn gwirionedd.

Gall archwiliad man chwarae manwl helpu i ddynodi'r posibiladau chwarae mewn gofod ac i ba raddau y mae plant a phlant yn eu harddegau'n eu defnyddio mewn gwirionedd. Yna, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu dyluniadau fydd yn cyfoethogi'r nifer a'r ystod o fforddiannau sydd ar gael (ac, o ganlyniad, yr amrywiol ffyrdd y gallai plant chwarae) a sicrhau y gall plant gael mynediad i'r holl gyfleoedd sydd ar gael.

## Sut i gynnal archwiliad man chwarae

Bwriedir i'r daflen archwiliad man chwarae ar [dudalen 13](#) gael ei defnyddio i gynnal arsylwad ddylai bara am o leiaf hanner awr. Yn ddelfrydol, dylid cynnal hwn ar wahanol adegau o'r dydd er mwyn gweld sut y bydd gwahanol grwpiau oedran yn defnyddio'r lleoliad. Er enghraifft, gellid cynnal arsylwad ar y penwythnos neu ar ôl ysgol ac un arall yn ystod y dydd i arsylwi plant dan oed ysgol yn defnyddio'r safle gyda'u rhieni neu eu gwarchodwyr. Bydd dewis pryd i gynnal arsylwadau'n dibynnu ar y safle.

Dylai'r archwiliadau chwarae hyn ganolbwyntio ar yr ystod o fforddiannau a geir yn y lleoliad a'r amrywiaeth o ymddygiadau chwarae a gefnogir gan y gofod, yn hytrach na dim ond ei olwg a'r gwrthrychau a geir ynddo. Ceir nifer o ymddygiadau chwarae o dan y pennawd 'gweithgarwch a arsylwyd' – disgrifir y rhain yn fanylach isod er mwyn helpu gyda'r arsylwad.

Ceir ymddygiadau chwarae y gellir eu dynodi heb fod angen gweld y plant yn chwarae. Er enghraifft, os yw plant yn ymgynnull ar gerrig mawr neu ardaloedd eistedd, bydd ôl traul ac ôl traed neu dyllau wedi eu palu â'r traed neu â ffyn (tystiolaeth bod plant yn gwneud defnydd o'r cyfleoedd sydd ar gael).

Os yw'r safle'n fan deniadol i blant, mae'n debyg bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at hyn. Dywedodd plant wrthym bod materion fel pa mor dda yw'r goleuo o amgylch y safle, pa mor agos y mae i gartrefi, ac os oes manau i gysgodi neu beidio yn cyfrannu at ymdeimlad o fod yn ddiogel ac yn apelio at ystod oedran eang. Os yw hyn yn wir, bydd angen dylunio'r safle mewn modd sy'n darparu ar gyfer yr ystod oedran eang honno ac sy'n darparu ar gyfer demograffig newidiol.

Bydd gan wahanol blant wahanol ddiddordebau chwarae ar wahanol adegau. Nid yw rhannu pobl yn grwpiau oedran neu'n grwpiau eraill, o reidrwydd, yn fuddiol (er efallai y bydd rhai pobl angen cefnogaeth benodol i gael mynediad i gyfleoedd i chwarae). Mae rhyngweithio rhwng pob grŵp oedran ac aelodau o gymdeithas yn broses allweddol sy'n cefnogi pob plentyn a phlentyn yn ei ardegau i deimlo'n fwy hyderus ynghylch chwarae'r tu allan a chymdeithasu. Bydd ffurfio perthnasau gyda phlant eraill a phlant eraill yn eu harddegau yn cynnig cyfle i rannu gwybodaeth am drigolion a daearyddiaeth cymdogaethau ac i rannu chwedlau lleol, er enghraifft, traddodiadau chwarae, rheolau gemau neu fannau i chwarae. Gallai enghraifft o hyn fod yn hen bolyn lamp a ddefnyddiwyd ers cenedlaethau fel y bas ar gyfer chwarae gemau fel chwarae cuddio neu *Faint o'r Gloch Mistar Blaidd?*

## Deall y daflen archwiliad man chwarae

**Cerdded, teithio trwy'r man chwarae** – Os oes llwybr yn rhedeg trwy'r safle efallai y bydd plant yn chwarae wrth iddynt symud trwy'r ardal, hyd yn oed os nad ydynt yn bwriadu aros yno. Gall ymddygiadau gynnwys neidio oddi ar ymyl y palmant ar feic neu sgwter, siglo ar goed, neidio dros bethau, rhedeg i lawr llethr, rhedeg yn rhydd/parcour. Meddylwch am gamau fyddai'n newid y modd y bydd plant yn teithio trwy'r safle, fel newid cyfeiriad llwybr, gan y gallai hyn annog rhagor o gyfleoedd, neu gyfleoedd chwarae gwell.

**Eistedd, ymgasglu, cymdeithasu** – Hyd yn oed os nad oes ardaloedd eistedd ffurfiol, ceir manau ble y bydd plant yn dewis cymdeithasu. Chwiliwch am arwyddion traul ar lawr ger ardaloedd eistedd, o dan fframiau dringo, wrth fôn coed/cerrig mawr neu eitemau a gludwyd i'r safle fel darnau o garped, cretiau neu fwcledi y gellid eu defnyddio fel seddi. Ble nad oes cyfleoedd amlwg yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer ardaloedd eistedd ffurfiol, neu fannau cyfarfod, bydd creu y rhain yn helpu i wneud y safle'n fan mwy cymdeithasol y gall ystod eang o oedrannau ei ddefnyddio – o deuluoedd â phlant iau i blant hŷn sy'n cwrdd i gymdeithasu a sgwrsio gyda'u ffrindiau. Dylid gosod seddi mewn cylchoedd, neu ar ffurf U neu L er mwyn annog chwarae cymdeithasol – nid yw gosod meinciau mewn rhesi yn adlewyrchu sut y bydd pobl yn hoffi ymgasglu a chymdeithasu.

**Reidio (beic, sgwter, sgleffwrdd)** – Ceisiwch arsylwi'r modd y mae plant yn defnyddio eu beiciau ar y safle. Ydi'r beiciau'n cael eu defnyddio fel cludiant i'r safle'n unig neu ydyn nhw'n cael eu marchogaeth ar neu o amgylch y safle? Pa nodweddion fyddan nhw'n eu defnyddio i reidio i lawr, neidio drostyn nhw, sgidid arnyn nhw? A oes tystiolaeth bod plant wedi bod yn adeiladu yma – fel rampiau mwd a phren? A oes unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i gefnogi cyfleoedd chwarae ar olwynion mewn modd anffurfiol?

**Defnyddio nodweddion naturiol (er enghraifft coed, llwyni, twmpathau, bryniau)** – Pa nodweddion naturiol sy'n cael eu defnyddio? Chwiliwch am fynedfeydd anffurfiol i ardaloedd coediog, ac am arwyddion o sbwriel neu eitemau a gludwyd i'r safle o dan goed/llwyni allai arddangos gweithgarwch adeiladu cuddfannau neu fannau cyfrinachol. Bydd ôl traul ar risgl neu ar fonion coed a changhennau wedi torri ar goed yn dystiolaeth bod plant yn eu dringo. A oes pethau i fyny yn y coed, fel planciau pren, rhaffau, defnydd? A oes modd cynyddu nodweddion naturiol fel hyn trwy blannu fydd yn creu rhagor o gyfleoedd chwarae?

**Chwarae gyda'r elfennau** – A oes gan blant fynediad i amrywiaeth o elfennau naturiol y gellir chwarae â hwy? Mae'r byd naturiol yn destun rhyfeddod i blant a dylent gael cyfleoedd i brofi dŵr, daear (mwd), tân ac awyr. Ydi'r safle'n cynnig fynediad i rai neu bob un o'r rhain? A oes modd ymgorffori'r elfennau hyn gan ddefnyddio agwedd rheoli risg cytbwys a synhwyrol?

**Defnyddio'r synhwyrau (blas, arogl, golwg, sŵn a gwead)** – Ceisiwch arsylwi sut y bydd plant yn symud trwy'r safle. Mae crensian dail, tywod, cyffwrdd rhisgl coeden, teimlo metal oer, rholio ar y gwair, a chwarae â chysgodion i gyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer chwarae â'r synhwyrau.

**Symud** – Sut fydd plant yn symud tra eu bod ar y safle? Dylid cael cyfleoedd amrywiol ar gyfer symud mewn gwahanol ffyrdd yn eich man chwarae, er enghraifft rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio, siglo, llithro, dawnsio a chwrso.

**Chwarae gwyllt** – Bydd plant yn dysgu am eu cyfyngiadau corfforol a'u cryfderau eu hunain, rheoli dichter a ffiniau personol, trwy chwarae gwyllt. Gall hyn fod ar amrywiol ffurfiau'n cynnwys chwarae ymladd, plismyn a lladron, cwrso, chwarae cuddio. Bydd yn gwbl eglur o'u chwerthin, gwên a mynegiant wyneb arall mai gêm yw hon, a bod y plant yn ei thrin fel gêm.

**Risg a her (corfforol)** – A yw'r plant yn profi lefelau cynyddol o her? 'Does dim angen i hyn fod yn weithgarwch llawn risg – gall fod mor syml â gweld plentyn dan oedran meithrin yn symud ymlaen o neidio oddi ar ris isaf ysgol i neidio oddi ar yr ail a'r trydydd gris. Ble fo cyfleoedd i blant fentro'n gorfforol, fel arfer byddant yn chwilio am ffyrdd i wella a chynyddu'r her. Er enghraifft, bydd ramp beiciau wedi ei chreu o frics a phlanciau pren yn fuan iawn yn cael ei haddasu gyda rhagor o frics wrth i hyder y plant dyfu.



### **Chwarae gyda mân offer/rhannau rhydd –**

A oes tystiolaeth bod plant yn dod â mân offer i'r safle er mwyn cyfoethogi eu chwarae? Gallai hyn fod yn rhaff ar gyfer creu siglen neu'n bren ar gyfer codi cuddfan, ceir bach i greu ffordd yn y mwd neu ddefnyddio elfennau naturiol fel cerrig, blodau, dail ac aeron i greu bydoedd bychain, ryseitiau swyn neu'n syml ddigon i greu pentwr neu ar gyfer dethol a dosbarthu eitemau.

**Chwarae â hunaniaeth** – Ydi'r plant yn chwarae gyda phwy ydyn nhw a sut y maent yn edrych? Gallai hyn gynnwys gemau chwarae rôl fel mam a babi, doctors a nyrsys, milwyr, *power rangers* neu newid eu golwg trwy roi mwd ar eu hwyneb, gemau gwisgo lan neu dynnu wyneb.

**Cerdded cŵn** – A fydd plant neu oedolion yn defnyddio'r safle i fynd â chŵn am dro? A oes olion baw cŵn? Os oes, efallai y bydd angen inni ystyried ffyrdd i leihau effaith hyn. Er enghraifft, biniau baw cŵn, arwyddion, gweithio gyda'r wardeiniaid cŵn, ffiniau o amgylch y man chwarae.

### **Cynllunio gweithredu**

Ar ddiwedd y daflen Archwiliad man chwarae ceir tabl ar gyfer datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr archwiliad man chwarae. Waeth os yw'r safle'n un sy'n bodoli eisoes sydd angen ei wella, neu'n safle newydd sydd i'w ddatblygu, neu os ydych yn syml iawn yn asesu sut y mae'r safle'n cael ei ddefnyddio fel rhan o'ch monitro rheolaidd, bydd camau y gallwch eu cymryd i un ai **datblygu** neu **warchod** y cyfleoedd sydd ar gael. Mae'r cynllun gweithredu wedi ei rannu yn y fath fodd fel y gellir trefnu camau gweithredu dan y ddau bennawd hwn ac mae'n nodi enghreifftiau o sut y gellir ei ddefnyddio.

Mae ail adran y cynllun gweithredu'n caniatáu inni ddynodi elfennau o'n harchwiliad a'n arsylwadau fydd yn ein hysbysu sut y mae plant a phlant yn eu harddegau'n chwarae a defnyddio'r safle. Gellir defnyddio'r arsylwadau hyn fel tystiolaeth ar gyfer ymgynghoriadau. Am fwy o wybodaeth ewch i Adran 3 ar gyfranogaeth ac ymgysylltu ar [dudalen 18](#).



# Taflen archwiliad man chwarae

<b>Enw'r safle:</b>				<b>Arsylwyd y safle gan:</b>
<b>Arsylwadau o'r safle:</b>	Diwrnod a dyddiad yr arsylwad:	Cyfnod arsylwi (e.e. gwyliau ysgol/ ar ôl ysgol/yn ystod diwrnod ysgol/ penwythnos/gyda'r nos):	Amser y cyfnod arsylwi:	Tywydd:
<b>Prif nodweddion a fforddiannau'r safle:</b>	Disgrifiad cryno o brif nodweddion a fforddiannau'r safle, yn cynnwys mynedfeydd (fel llethrau, coed, llwyni, gwylfâu, lleoedd i guddio, pethau i ddringo arnynt neu drostynt, seddi a manau cyfarfod, ardaloedd gwastad; yn ogystal ag unrhyw offer chwarae gwneuthuredig sydd wedi eu gosod yno). Dylid nodi unrhyw arwyddion o ddefnydd penodol, er enghraifft glaswellt wedi treulio, canghennau wedi eu torri, olion olwynion beics, sbwriel, graffiti. Gellir nodi manylion pellach am y rhain isod o dan unrhyw arsylwadau gweithgarwch.			
<b>Defnydd gan blant, plant yn eu harddegau ac oedolion: (niferoedd)</b>	Gwryw:	Benyw:	Bras amcan oedran (e.e. dan 5, 5-8, 8-13, 13-15, 15+):	Cyfanswm:
Plant / plant yn eu harddegau mewn grŵp:				
Plant / plant yn eu harddegau unigol:				
Wedi eu hebrwng gan oedolion:				
Oedolion unigol:				

Ymddygiadau a arsylwyd ym mhresenoldeb plant a phlant yn eu harddegau:	Os nad ydynt yn bresennol, cofnod o arwyddion bod plant a phlant yn eu harddegau wedi bod yno ac yn gwneud defnydd o'r safle:	
Cerdded, teithio trwy'r man chwarae:		
Eistedd, ymgasglu, cymdeithasu:		
Reidio beics, sgwteri, sglefrfyrdau:		
Defnyddio nodweddion naturiol (e.e. coed, llwyni, twmpathau, bryniau):		
Chwarae â'r elfennau (dŵr, daear [mwd], tân ac awyr):		
Defnyddio'r synhwyrâu (blas, arogl, golwg, sŵn a gwead):		
Symud (er enghraifft rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio):		
Chwarae gwyllt:		
Risg a her (corfforol):		
Chwarae â mân offer/rhannau rhydd:		
Chwarae â hunaniaeth:		
Cerdded cŵn:		



**Cynllun Gweithredu Darpariaeth Chwarae –  
Sut mae eich arsylwadau'n cyfrannu at dystiolaeth am yr hyn y mae'r plant/y gymuned ei eisiau?**

Tystiolaeth o'r ddarpariaeth sydd ei angen	Camau gweithredu
Er enghraifft – Mae arsylwadau'n dangos bod y plant yn mwynhau dringo coed ar hyd ymyl y safle.	Er enghraifft – Sicrhau bod y briff dylunio'n gofyn i'r dylunydd chwarae sicrhau bod mynediad i'r coed.



## Adran 2: Caniatâd



Er mwyn datblygu safle bydd yn hanfodol sicrhau caniatâd priodol i ddefnyddio'r tir. Os nad ydym yn adnabod y tiffeddianwr eisoes, gallwn gysylltu â'r awdurdod lleol a/neu'r Gofrestrfa Tir i ganfod hyn (efallai y codir ffi am y wybodaeth hon).

Unwaith ein bod yn gwybod pwy yw perchennog y tir, gallwn eu holi pa drefniadau sydd eu hangen er mwyn prynu'r tir neu ei rentu ar brydles. Mae prydlesu'n cyfeirio at drefniant ariannol ar gyfer defnyddio'r tir rhyngom ni a'r tiffeddianwr. Gall rhentu ar brydles gostio swm sylweddol o arian. Mae 'prydles rhent rhad' yn opsiwn arall, ble fo angen cyfraniad ariannol bychan er mwyn gwneud y cytundeb yn un cyfreithiol rwymol ond ble nad yw'r tiffeddianwr yn ceisio budd ariannol o'r trefniant.

Bydd angen inni hefyd gadarnhau pwy fydd yn derbyn cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r tir ac unrhyw offer gaiff ei osod arno. Gweler hefyd yr adran Cynnal a chadw ac archwilio ar [dudalen 53](#), Llunio partneriaethau ar [dudalen 24](#), ac Asesu risg-budd ar [dudalen 50](#).

Os ydym am rentu'r tir ar brydles a/neu gynnal a chadw'r offer ein hunain, bydd angen inni ddynodi sut y caiff hyn ei ariannu. Ymchwiliwch os oes modd ymgeisio am gyllideb cynnal a chadw/ prydlesu fel rhan o gais ar gyfer datblygu'r safle.



Gallai'r mathau o sefydliadau/unigolion sy'n berchen ar y tir yr ydym am ei ddatblygu gynnwys:

- **Yr awdurdod lleol** – cyfle i drafod telerau ar gyfer prydlesu, yswiriant, cynnal a chadw.
- **Cyngor Cymuned** – cyfle i drafod telerau ar gyfer prydlesu, yswiriant, cynnal a chadw.
- **Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD)** – efallai y bydd gofyn ichi drafod sut y gall plant sy'n byw ar y safle milwrol ddefnyddio'r ddarpariaeth chwarae neu os/sut y gall aelodau o'r gymuned gael mynediad i'r safle.
- **Ffermwyr/perchnogion preifat** – efallai y bydd trefniadau â thirfeddianwyr preifat yn bosibl mewn rhai cymunedau ond argymhellir y dylid derbyn cyngor cyfreithiol ynghylch cyfrifoldebau sy'n ymwneud ag yswiriant a chynnal a chadw dan yr amgylchiadau hyn.

## **Ceisiadau cynllunio, chwiliadau tir, arolygon**

Cyn symud ymlaen â datblygiadau ar y man chwarae, mae'n bosibl y bydd angen cwblhau gwaith papur ychwanegol – y bydd rhywfaint ohono'n costio arian. Bydd cymhlethdod a chost y broses yn dibynnu'n bennaf ar faint a lleoliad y safle a'r hyn a osodir arno.

Mae'n well ceisio cyngor gan yr adran gynllunio leol ar y broses hon.

Am fwy o wybodaeth ynghylch perchenogaeth tir, ceisiadau cynllunio, chwiliadau neu arolygon, edrychwch ar yr enwau a geir yn y rhestr Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth ar [dudalen 58](#).





## Adran 3: Cyfranogaeth ac ymgysylltu



Mae gan blant hawl i ymgynghori ar faterion sy'n effeithio arnynt. (Erthygl 12 CCUHP).

*'Dylai Cymru fod yn wlad ble caiff plant a phobl ifanc eu trin fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned. Dylid clywed eu llais ac ystyried eu hanghenion ym mhob elfen o lunio polisïau.'*  
(Llywodraeth Cymru)

Ceir amrywiol ffurfiau ar gyfranogaeth ac ymgysylltu ac mae gofyn i blant *'Beth ydych ei eisiau yn eich ardal chwarae?'* yn ddull fydd, gan amlaf, yn derbyn ystod cyfyngedig o ymatebion fydd yn seiliedig ar brofiadau'r plentyn hwnnw o fannau chwarae (siglen, llithren, rowndabowt) neu restr o eitemau annhebygol neu anymarferol (bwyty bwyd brys, pwll nofio, Xbox ar gyfer pob plentyn yn yr ardal).

Ceir ystod o ddulliau y gellir eu defnyddio â phlant i gasglu eu barn ac i'w cynnwys mewn datblygiadau arfaethedig. Yn bwysicaf oll, os nad oes gennym brofiad blaenorol o gyfranogaeth â phlant neu os nad ydym yn teimlo ei fod yn ddawn sydd gennym yn ein mudiad neu bartneriaeth, ceir pobl leol all gynnig cymorth uniongyrchol inni:

- Swyddog Chwarae
- Swyddog/Tîm Cyfranogaeth
- Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc
- Ysgol leol neu gyngor ysgol
- Darpariaeth blynnyddoedd cynnar/meithrin
- Darpariaeth clwb ieuenctid/gwaith maes.

Am fwy o wybodaeth ar bwy i gysylltu â nhw ynghylch cyfranogaeth ac ymgysylltu, edrychwch ar yr enwau a geir yn y rhestr Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth ar [dudalen 58](#).

*Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru* – Mae'r canllaw hwn a gyhoeddwyd gan swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn cyflwyno fframwaith ymarferol ac egwyddorol ar gyfer gweithio gyda phlant yn seiliedig ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n cynnwys adran benodol ar gyfranogi.

**Lawrlwytho**

## Dulliau cyfranogi ac ymgysylltu

Gall cyfranogaeth ddigwydd mewn nifer o ffyrdd:

**Gweithdai** – Bydd hwyluso gweithdai gyda phlant gan ddefnyddio gweithgareddau chwareus yn eu galluogi i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn weithredol, datblygu eu dealltwriaeth o'r prosiect a'u helpu i gynhyrchu syniadau ar gyfer y gofod. Gallai hyn gynnwys gemau corfforol, gweithgareddau celf a chrefft, mapio, adrodd straeon, trafodaethau grwpiau bychain, cyfweiliadau un-i-un neu gyfoedion.

**Arsylwadau** – Bydd darparu cyfleoedd i blant chwarae mewn ardal a chynnal arsylwadau o'u hoff ymddygiadau chwarae'n cynnig arwydd da o'r hyn y mae plant yn hoffi ei wneud heb eu tynnu oddi wrth eu chwarae.

**Archwiliadau Chwarae** – Bydd defnyddio'r daflen Archwiliad man chwarae ar [dudalen 13](#) yn darparu tystiolaeth o'r modd y bydd plant eisoes yn defnyddio man chwarae penodol a gellir defnyddio'r cynllun gweithredu i lunio cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth o'r arsylwadau ynghylch sut y gellid datblygu'r safle.

**Adeiladu, plannu, clirio** – Os oes elfennau o'r man chwarae y gallai'r gymuned eu datblygu, byddai cael plant a phlant yn eu harddegau ynghlwm â'r gwaith yn eu helpu i lunio'r man chwarae a rhoi ymdeimlad o berchenogaeth iddyn nhw. Mae plannu coed/bylbiau, palu, paentio, adeiladu a chlirio sbwriel yn ffyrdd gwych o gynnwys y gymuned yn natblygiad y man chwarae ac o gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y datblygiadau sydd ar y gweill. Efallai mai yn ystod y gweithgareddau cymunedol hyn y bydd pobl ifanc yn mynegi eu syniadau'n ystod sgrysiâu anffurfiol – gwnewch yn siŵr bod modd cofnodi hyn!

**Caniatáu am newidiadau fel rhan o'r broses ddylunio** – Mae plant a phlant yn eu harddegau yn hoffi gallu newid eu hamgylchedd. Dyma pam y bydd plant yn adeiladu cuddfannau ac yna'n eu chwalu, gan eu haddasu'n barhaus. Bydd darparu elfennau o fan chwarae y gall plant eu newid o hyd yn sicrhau y gallant gael rôl uniongyrchol yn esblygiad y safle dros amser. Gallai hyn fod yn ardal y gadewir iddi dyfu'n wyllt sydd at ddefnydd y plant yn unig neu'n lwybr pridd ar gyfer beiciau BMX y gallant ei addasu.

**Holiaduron** – Gall targedu holiaduron at grŵp penodol o bobl fod yn ffordd dda i sicrhau y ceir nifer fawr o ymatebion. Un ffordd o wneud hyn yw trwy dargedu'r ysgol leol a gweithio gydag athrawon i annog y plant i gwblhau holiaduron am ble a sut y maent yn hoffi chwarae yn eu cymuned. Fel gyda phob dull cyfranogi, bydd angen i'r cwestiynau a ofynnir fod yn rhai agored ond yn ddigon penodol i osgoi casglu ymatebion afrealistig. Ceir sampl o holiadur ysgol sy'n cwmpasu ymddygiadau chwarae ar [dudalen 21](#). Gall canlyniadau'r holiaduron helpu i sicrhau bod y man chwarae'n darparu ar gyfer yr ystod eang o bethau y bydd plant yn hoffi eu gwneud – yn rhyfedd ddigon fydd yr ymatebion i gyd ddim yn sôn am siglenni a llithrennau!



Mae **'Participation – Spice it Up!'** yn gyhoeddiad a ddatblygwyd gan Dynamix ac sy'n darparu ystod o gemau a gweithdai i'w cynnal â phlant a phlant yn eu harddegau er mwyn helpu i gasglu eu barn mewn modd hwyliog a chynhwysol.

Mae **'Participation - Young Spice'** yn gyhoeddiad dilynol sy'n canolbwyntio ar weithgareddau cyfranogi hwyliog ar gyfer plant dan 11 oed.

**Lawrlwytho**

### **Herio'r myth**

**Ddylen ni ddim croesawu plant yn eu harddegau i fannau chwarae**

Os oes plant yn eu harddegau yn y gymuned a'n bod yn datblygu'r man chwarae, mae'n gwbl naturiol y bydd ganddynt ddi-ddordeb ynddo ac y byddant am gymdeithasu yno. Dylech ddylunio'r gofod fel ei fod hefyd yn darparu ar gyfer plant yn eu harddegau a'u cynnwys yn y broses yn fuan.

*'Rwy'n gwbl sicr bod llawer o fandaliaeth yn digwydd oherwydd nad oes darpariaeth ar gyfer plant hŷn. Bydd cymaint o bobl yn canolbwyntio ar ddarpariaeth i blant oed meithrin oherwydd nad ydyn nhw am "ddenu ieuencid gwrthgymdeithasol" fel nad oes fawr ddim fyddai o ddi-ddordeb i blant hŷn. Mewn amgylchiadau fel hyn 'does ryfedd pe bae'r plant hŷn yma'n teimlo wedi dieithrio a dadrithio â'u cymuned. Rydym wedi casglu llawer o dystiolaeth lafar, ble y sicrheir darpariaeth fwy cyffrous ar gyfer plant hŷn, bod fandaliaeth yn lleihau.'*

(Cyfweiliad Free Play Network gyda Paul Collings, Cyfarwyddwr Timberplay, 2007)





# Holiadur chwarae'r tu allan

Enw (dewisol): \_\_\_\_\_

I ba ysgol wyt ti'n mynd? \_\_\_\_\_

Beth yw dy ryw?    **Bachgen**    **Merch**    **Arall**

Wyt ti'n ystyried dy fod yn anabl?            **Ydw**            **Nac ydw**

Ble wyt ti'n cael chwarae? (*Ticia bob un sy'n berthnasol*)

Rhestrwch fannau lleol yma, er enghraifft...	Rwy'n cael mynd yno ar fy mhen fy hun	Rwy'n cael mynd yno gyda ffrindiau	Dim ond gyda brawd neu chwaer hŷn	Dim ond gydag oedolyn	Ddim yn cael chwarae yno
Parc Trefartin					
Parc sgrialu Mannello					
Siopau Glasfryn					

Beth, os oes rhywbeth, fydd yn dy atal rhag gallu chwarae yn y mannau hyn?

(*Rho gylch am bob ateb perthnasol*)

Ddim yn cael mynd allan	Gwaith cartref	Y tywydd	Rhy dywyll	Bwlis
Plant hŷn	Oedolion eraill	Ddim yn cael baeddu	Dim i chwarae ag e'	Neb i chwarae â nhw
Baw cŵn	Rhy brysur yn chwarae Xbox/PS3/Wii/DS	Gormod o draffig	Rhy brysur gyda chlybiau a gweithgareddau eraill	Tydw i ddim yn hoffi gwlychu na baeddu
Rhywbeth arall?				


**Pan fyddi'n mynd allan i chwarae, beth fyddi di'n hoffi ei wneud?** (*Rho gylch am bob ateb perthnasol*)

Beic	Mwd	Gemau pêl	Ffrindiau fy oedran i	Ffrindiau hŷn
Ffrindiau iau	Dŵr	Tywod	Sgwter	Sglefrwrdd
Gemau rhedeg	Gemau cuddio	Gemau Tic	Ymlacio	Sgwrsio
Rholio i lawr llethrau	Dringo	Coed a llwyni	Siglo	Llithro
Rowndabowt	Adeiladu cuddfannau	Codi rampiau (ar gyfer beiciau)	Balansio	Tynnu lluniau/ paentio
Rhywbeth arall?				


**Pa mor dda yw'r manau hyn ar gyfer chwarae?** (*Ticia neu rho gylch am ddim ond un ateb*)

Rhestrwch fannau lleol yma, er enghraifft...	Gwych – Dwi'n gallu gwneud popeth rwy'n ei hoffi	lawn – dwi'n gallu gwneud rhai o'r pethau rwy'n eu hoffi	Ddim yn dda – alla' i ddim gwneud llawer o'r pethau rwy'n eu hoffi	Da i ddim – alla' i ddim gwneud unrhyw un o'r pethau rwy'n eu hoffi
Parc Trefartin				
Parc sgrialu Mannello				
Siopau Glasfryn				

**Sut wyt ti'n meddwl y gallen ni wneud y manau hyn yn well?**



**Oes yna rywbeth yn y manau hyn y dylen ni ei warchod neu ei gadw?**





## Adran 4: Llunio partneriaethau



Wrth gynllunio i ddatblygu man chwarae newydd, mae'n debyg y byddwn yn anelu i ddod â nifer o unigolion a grwpiau ynghyd i gynllunio'r trefniadau disyfyd a thymor hir ar gyfer eich man chwarae. Mae'r adran hon yn edrych ar y mathau o grwpiau ac unigolion y gallem weithio â nhw ac mae hefyd yn darparu rhywfaint o ddulliau ar gyfer sut i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau a chreu cytundebau ysgrifenedig er mwyn sicrhau bod pawb yn gwbl glir ynghylch yr hyn y maent i fod i'w wneud.

Isod ceir rhestr sy'n nodi'r mathau o bobl y gallech anelu i weithio mewn partneriaeth â nhw ac ar ba gyfnodau o'r broses gynllunio, datblygu a chynnal a chadw parhaus:

- Plant a phlant yn eu harddegau
- Oedolion eraill sy'n aelodau o'r gymuned
- Grwpiau trigolion
- Cynghorau Cymuned
- Cymdeithasau chwarae lleol
- Grwpiau cymunedol eraill
- Swyddogion awdurdodau lleol
- Cymdeithasau tai
- Dylunwyr tirwedd/chwarae
- Ysgolion
- Grwpiau crefyddol/eglwys.

## Creu grŵp

Yn aml, bydd cyhoeddi galwad agored yn ffordd effeithiol i gael unigolion neu sefydliadau i ymwneud â datblygu a rheoli'r man chwarae. Bydd hyn yn sicrhau bod popeth yn agored ac yn dryloyw a bod pawb yn y gymuned yn cael cyfle i gyfrannu. Yn dilyn cyfarfod agored gallwn ofyn i bobl ymrwymo i gyfranogi yn y tymor hir.

## Sgiliau

Edrychwch ar y sgiliau o fewn y grŵp – pwy sy'n rhan ohono a pha sgiliau sydd ganddynt eisoes? A oes unrhyw fylchau mewn gwybodaeth allai alw am gymorth arbenigol? Efallai y bydd modd i'r rheini a restrir yn yr adran Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth ar [dudalen 58](#) helpu i lenwi unrhyw fylchau mewn sgiliau.

## Cofnodi rolau a chyfrifoldebau

Bydd angen inni hefyd ystyried pwy fydd yn derbyn cyfrifoldeb uniongyrchol am elfennau o'r broses ddylunio a datblygu a'r gwaith rheoli a chynnal a chadw yn y tymor hir. Gellir diffinio'r rhain mewn dogfen a elwir yn Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MCDd) a arwyddir gan y partneriaid perthnasol. Ceir enghraifft o MCDd ar [dudalen 26](#), y gellir ei addasu i ateb eich anghenion. Efallai y bydd angen datblygu dau MCDd - un ar gyfer y cyfnod dylunio a datblygu ac ail un ar gyfer rheoli a chynnal a chadw, gan ei bod yn bosibl y bydd y rolau a'r unigolion dan sylw'n wahanol.

'Does dim angen i'r MCDd fod yn ddogfen gymhleth, ond mae'n arfer dda defnyddio'r penawdau a rhai o'r pwyntiau yn yr esiampl fel canllaw. Mae'n bwysig sicrhau ei bod yn gwbl eglur beth fydd rôl pob person yn y grŵp a phwy fydd â chyfrifoldeb cyffredinol am elfennau allweddol fel rhentu ar brydles, yswiriant, cynnal a chadw ac archwilio.



### Herio'r myth

*'Allwn ni ddim adnewyddu ein hardal chwarae oherwydd ein bod yn bryderus ynghylch agweddau iechyd a diogelwch gwneud unrhyw newidiadau.'*

Os ydym yn gyfrifol am fan chwarae, mae'n bwysig iawn cynnal asesiadau risg-budd rheolaidd os yw'r nodweddion a/neu'r offer ar y safle'n newydd neu'n hen ac wedi treulio. Os yw offer, amgylchoedd neu arwynebau wedi treulio'n wael neu'n beryglus a bod dim yn cael ei wneud i gywiro'r materion hyn, fe ellid ein dwyn i gyfraith am esgeulustra. Gallai hyn olygu atal mynediad i rai nodweddion neu offer a defnyddio cyllid i'w hadnewyddu neu eu gwaredu cyn symud ymlaen gydag unrhyw gynlluniau i ailddatblygu'r safle.

# Esiaml o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth – \_\_\_\_\_ Man Chwarae

## Cyflwyniad

Ariennir y prosiect hwn gan \_\_\_\_\_. Nod y prosiect yw datblygu a chynnal man chwarae cymunedol yn ardal \_\_\_\_\_ sy'n addas a hygyrch ar gyfer plant a phlant yn eu harddegau yn y gymuned.

(Nodwch enw a chyfeiriad y safle isod)

---

## Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw diffinio'r dull gweithio a rolau a chyfrifoldebau aelodau-sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i oruchwylio, cefnogi a sicrhau cynnal a chadw man chwarae \_\_\_\_\_ gan gyfrannu at ei gynnalwydd yn y tymor hir.

Rôl y bartneriaeth yw cefnogi rhaglen cynnal a chadw/dylunio a datblygu man chwarae \_\_\_\_\_ er mwyn sicrhau bod modd i'r safle barhau i gefnogi a bod yn effeithlon wrth gyflawni anghenion chwarae plant a phlant yn eu harddegau. Trwy gynnal asesiadau risg-budd caiff unrhyw beryglon diangen eu lleihau trwy gefnogi'r camau angenrheidiol, yn cynnwys cwblhau gwiriadau, atgyweiriadau, ac addasiadau amgylcheddol.

Mae aelodau'r grŵp wedi gwneud ymrwymiad i gyfrannu at awyrgylch o ddiffuantrwydd, cyfranogaeth weithredol a dealltwriaeth o anghenion penodol pob mudiad a lleoliad.

## Pleidiau sy'n llunio'r cytundeb

Y tîrfeddianwr/unrhyw bleidiau eraill sy'n gweithio i gefnogi'r man chwarae plant yw:

---

---

---



**Dulliau gweithio**

1. \_\_\_\_\_ fydd yn derbyn y cyfrifoldeb pennaf am reoli'r man chwarae a bydd yn gweithio gyda'r partneriaid i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n iawn a'i fod yn addas i fynd iddo er mwyn cefnogi anghenion chwarae plant. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cyllideb i gefnogi unrhyw raglen cynnal a chadw.
2. Bydd \_\_\_\_\_ yn darparu gofalwr i sicrhau y cynhelir archwiliad gweledol dyddiol/ wythnosol o'r man chwarae cyfan. Bydd hyn yn cynnwys gwaredu unrhyw sbwriel diangen ac archwiliad gweledol o unrhyw offer chwarae ar y safle am olion traul. Caiff unrhyw bryderon eu cofnodi'n briodol, ynghyd ac unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol. Bydd hyn yn llunio rhan o unrhyw asesiad risg-budd a wneir.
3. Caiff asesiadau risg-budd eu cwblhau a'u cadw ar ffeil gan \_\_\_\_\_ a chaiff camau gweithredu penodol eu rhannu â staff priodol a phleidiau allanol sy'n cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.
4. Cynhelir cyfarfodydd (gaiff eu cynnal bob \_\_\_\_\_) â phleidiau allanol priodol sy'n cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw, a byddant yn cynnwys rhannu unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi'r rhaglen cynnal a chadw. (A gysylltir fel atodiad i'r cytundeb).
5. Bydd cyfarfodydd yn dynodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cyflawni unrhyw gamau gweithredu a ddynodwyd y bydd eu hangen i gefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.
6. Bydd gofyn i bleidiau allanol priodol gyfrannu at unrhyw asesiadau risg-budd a wneir.
7. Bydd pleidiau allanol priodol yn cyfrannu at gynnal a chadw'r man chwarae trwy sicrhau y caiff camau gweithredu penodol a ddynodir eu cyflawni (er enghraifft torri gwair, torri cloddiau).
8. Bydd pleidiau allanol priodol yn cymryd camau i gefnogi cyfrannu at gyllideb a/neu adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r rhaglen cynnal a chadw.

Mudiad – Pwy?	Rôl – Beth?	Cyfrifoldeb

**Datganiad**

Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn cytuno i'r trefniadau yn y ddogfen hon.

Arwyddwyd \_\_\_\_\_

Dyddiad \_\_\_\_\_

## Adran 5: Egwyddorion dylunio mannau chwarae



### *Design for Play*

Ceir canllawiau manwl ar y broses dylunio mannau chwarae yng nghyhoeddiad Play England: *Design for Play*.

### **Lawrlwytho**

Yn dilyn datblygu partneriaeth a dechrau cynnwys pobl leol mewn cynlluniau ar gyfer y man chwarae, bydd angen inni ystyried y broses ddylunio.

Cofiwch wrth siarad am fannau chwarae, y gallai'r rhain fod yn fannau gydag offer chwarae neu y gallent fod wedi eu tirlunio a chynnwys rhywfaint o nodweddion y gellid chwarae arnynt. Gallent hefyd fod yn ardaloedd chwarae penodedig neu'n rhan o'r ardal gyhoeddus ehangach. Pan fyddwn

yn holi plant ac oedolion am chwarae'r tu allan, fel arfer byddant yn sôn bod ymwneud â'r byd naturiol yn rhywbeth sy'n achosi llawer o fwynhad. Mae dringo coed, adeiladu cuddfannau, creu teisennau mwd, cronni nentydd, ymladdfeydd dŵr, rholio i lawr bryniau a chreu cadwyni blodau yn rhai o bleserau symlaf plentyndod.

*'Bydd meysydd chwarae plant ym mhob cwr o'r DU yn aml iawn yn edrych yn hynod o debyg, a gall y broses ddylunio gael ei gorbwyso gan ragdybiaethau ac ystradebau. Bydd maes chwarae sy'n cynnwys dim ond offer sylfaenol, ffensys ac arwynebau diogelwch rwber yn darparu ar gyfer ystod cyfyngedig iawn o brofiadau chwarae. Mae cred gyffredin wedi datblygu mai dyma sut y dylai ardaloedd chwarae edrych.'*  
(*Design for Play*, 2009)

## 10 Egwyddor Dylunio

Mae *Design for Play* yn amlygu 10 Egwyddor Dylunio ar gyfer dylunio mannau chwarae llwyddiannus. Mae'n nodi bod mannau chwarae llwyddiannus:

### 1. yn unigryw

Fyddan nhw ddim yn dod yn syth allan o gatalog ac maent wedi eu dylunio i ymdoddi i'w amgylchoedd.

### 2. wedi eu lleoli'n dda

Byddant wedi eu lleoli ble y bydd y cyfle gorau iddynt gael eu defnyddio, yn agos i gartrefi a llwybrau diogel ar gyfer cerdded a seiclo.

### 3. yn defnyddio elfennau naturiol

Coed a llwyni, glaswellt, mwd, tywod, cerrig a chreigiau, tirlunio – bydd y rhain i gyd yn annog ystod o wahanol fathau o chwarae.

### 4. yn darparu ystod eang o brofiadau chwarae

Bydd mannau chwarae ag ardaloedd eistedd, llochesi, mannau i greu a digon o le i redeg o gwmpas, yn darparu gwerth chwarae gwell o lawer na chwepwl o ddarnau o offer o fewn ffin â ffens gadarn.

### 5. yn hygyrch i blant anabl a phlant sydd ddim yn anabl

Mae hyn yn golygu mwy na dim ond darparu mynediad i gadeiriau olwyn. Bydd elfennau naturiol yn cynnig cyfle i ddeffro'r synhwyrau, bydd pyllau tywod a mwd yn darparu ardaloedd ble y gall plant sy'n cael trafferth i symud ymgysylltu â'r byd naturiol, a bydd llethrau serth yn cynnig her i'r rheini fydd yn treulio eu bywydau ar dir gwastad.

### 6. yn ateb anghenion y gymuned

Fe gaiff, ac fe ddylai, man chwarae gael ei ystyried fel safle ar gyfer y gymuned gyfan. Wedi'r cyfan, bydd rhieni a theidiau a neiniau yn cwrdd ac ymgynnull yno, felly cofiwch gynnwys y gymuned gyfan yn natblygiad y safle.

### 7. yn caniatáu i blant o wahanol oedran chwarae gyda'i gilydd

Yn aml, caiff bywydau plant eu strwythuro'n grwpiau oedran, yn enwedig yn yr ysgol. Bydd plant ifainc yn dysgu orau am y byd o'u hamgylch oddi wrth blant hŷn a bydd plant hŷn yn elwa o'r cyfrifoldeb a'r empathi y bydd chwarae â phlant iau yn ei olygu. Bydd dylunio mannau chwarae deallus yn caniatáu i blant gymysgu, hyd yn oed os oes eitemau yno sy'n apelio mwy at gyfnodau datblygiad penodol.

### 8. yn cynnwys cyfleoedd i brofi risg a her

Bydd plant yn dysgu trwy brofiad a bydd cymryd risgiau bychain yn datblygu'r dysg yma. 'Dyw hyn ddim yn golygu bod rhaid hedfan hanner cant o blant yn yr awyr, ond bydd cyfleoedd i falansio a dringo a symud o gwmpas ar dir anwastad i gyd yn cynyddu sgiliau plant.

### 9. yn gynaliadwy ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol

Waeth os yw'r man chwarae'n fawr neu'n fach, bydd angen bod â chynlluniau yn eu lle o'r cychwyn cyntaf ynghylch sut y caiff y safle ei gynnal a'i gadw i'r dyfodol. A fydd y grŵp yn parhau i fod ynghlwm â rheoli'r safle? A oes angen archwilio tywod yn rheolaidd? A oes ariannu ar gael i barhau i ddatblygu a chynnal y safle?

### 10. yn caniatáu ar gyfer newid ac esblygu

Mae plant yn hoffi gallu newid eu hamgylchedd er mwyn ei gadw'n ffres a chyffrous. Gellid gwneud hyn trwy sicrhau bod eitemau symudol ar gael, yn cynnwys elfennau naturiol neu trwy ddatblygu'r safle dros gyfnod maith fel ei fod yn esblygu yn hytrach na chyrraedd ar gefn lori un diwrnod a pheidio â newid byth.



### *Herio'r myth*

#### **Mae'r gyfraith yn mynnu bod rhaid gosod ffens fetal o amgylch y safle**

'Does dim gorfodaeth i osod unrhyw fath o ffens o amgylch man chwarae ac ni ddylid cymryd bod angen ffens. Yn hytrach, dylid penderfynu os oes angen ffin a pha fath o ffin, trwy asesiad risg-budd o'r ardal gyfagos.

Gallai'r rhesymau dros ddewis gosod ffens neu ffin arall gynnwys: bod y ddarpariaeth ar gyfer plant ifainc iawn a bod perygl os bydd plant yn rhedeg oddi ar y safle, i gadw cŵn allan o'r safle neu os yw'r ddarpariaeth yn agos iawn i ffordd fawr neu ddŵr dwfn.

Os byddwch yn dewis gosod ffin o amgylch y man chwarae, dylech ddewis elfennau sy'n ymdoddi i'r lleoliad neu opsiynau y gellid chwarae â nhw. Gallai'r rhain gynnwys: ffens bren, waliau cerrig sychion, waliau y gellir eu dringo neu wrychoedd.



## Adran 6: Egwyddorion dylunio mannau chwarae cynhwysol



### Pecyn cymorth

#### *Creu manau chwarae hygrych*

Bwriedir i'r pecyn cymorth hwn gynorthwyo awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, gwleidyddion ar bob lefel, cynllunwyr manau agored, cymdeithasau tai a rheolwyr parciau a meysydd chwarae wrth ddatblygu ac uwchraddio manau chwarae hygrych. Mae'n cynnwys gwybodaeth y bwriedir iddi eich helpu i ddeall a mynd i'r afael â materion sy'n destun pryder ac mae'n cynnwys templedi ac offer cam-wrth-gam, ymarferol ar gyfer cyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â chwalu rhwystrau sy'n wynebu plant anabl a'u teuluoedd wrth geisio cael mynediad i fannau chwarae.

**Lawrlwytho**

Pan fyddwch yn datblygu man chwarae mae'n hanfodol ystyried hawliau pob plentyn a phlentyn yn ei arddegau yn y gymuned fydd yn defnyddio'r man chwarae, neu allai ei ddefnyddio yn y dyfodol. Golyga hyn y bydd angen inni feddwl sut y gallai plant a phlant yn eu harddegau sydd ag amrywiol namau gael mynediad i'r cyfleoedd chwarae a ddarperir.

Mae dau gysyniad a gododd o'r mudiad Hawliau'r Anabl yn ddefnyddiol iawn i'w hystyried wrth ddatblygu man chwarae:

- **Model cymdeithasol anabledd** – Mae'n cydnabod bod pobl sydd â namau'n cael eu hanablu gan gymdeithas sydd ddim yn cyflawni eu hanghenion. Mae'r model hwn yn dadlau bod angen i gymdeithas wneud newidiadau er mwyn bodloni pobl sydd â namau.
- **Dylunio cyffredinol** – Yr athroniaeth y gallai cymdeithas, trwy fesurau dylunio syml, fod yn llawer mwy hygrych i lawer mwy o bobl.



Mae'r pecyn cymorth *Creu mannau chwarae hygyrch* hefyd yn nodi gwahaniaeth defnyddiol rhwng y termau hygyrch a chynhwysol:

- **Man chwarae hygyrch** – man chwarae sydd wedi ei ddylunio heb unrhyw rwystrau amgylcheddol afresymol i gyrraedd ato neu i symud ynddo neu o'i amgylch. Mae'n hawdd cael mynediad i'r cyfleoedd chwarae sydd yn y gofod. Ond, nid yw'n dileu heriau derbyniol, sy'n nodwedd bwysig o le chwarae o safon. Gall lle chwarae hygyrch gael ei ddefnyddio gan fwy nag un plentyn ar y tro, mewn mwy nag un ffordd. Mae amrywiol ffyrdd i symud trwy'r gofod a detholiad o nodweddion amgylcheddol y gellir chwarae arnynt, ynddynt a gyda nhw
- **Chwarae cynhwysol** – mae chwarae cynhwysol yn golygu bod gan bob plentyn a phlentyn yn ei ardegau fynediad cyfartal i ddarpariaeth chwarae leol o safon uchel. Mae hyn yn golygu y gallant chwarae gydag eraill neu ar eu pen eu hunain, fel y mynnant, mewn amgylchedd cyfoethog sy'n cefnogi eu hanghenion chwarae ac sy'n rhoi mynediad iddynt i ystod eang o gyfleoedd chwarae.

Mae rhaid i'r man chwarae fod â chynnig chwarae o safon ar gyfer pob plentyn a phlentyn yn ei ardegau. Mae 'cynhwysiant' yn derm cymdeithasol – mae'n hanfodol er mwyn sicrhau mynediad i'r profiad cymdeithasol o chwarae gydag ac o amgylch pobl eraill. 'Does dim angen i bob plentyn a phlentyn yn ei ardegau allu chwarae gyda neu ar bob peth, ond maen nhw i gyd angen yr ystod ehangaf posibl o opsiynau chwarae.

Offer arbenigol – mae'n bwysig meddwl sut fydd plant a phlant yn eu harddegau sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn cael mynediad i ac yn chwarae yn y gofod. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth ofalus cyn prynu offer arbenigol, yn benodol:

- Pa gyfran o'r gyllideb fyddai un darn o offer arbenigol yn ei gostio – allen ni brynu nifer o eitemau llai o faint sy'n darparu ystod o gyfleoedd am yr un pris?
- Ydyn ni ddim ond am ddarparu un cyfle chwarae ar gyfer plant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu a fyddai'n well gennym gael nifer o eitemau neu nodweddion amhenodol y gellir eu defnyddio mewn nifer o wahanol ffyrdd gan ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl sydd ddim yn defnyddio cadair olwyn?





Mae'r pecyn cymorth *Creu mannau chwarae hygyrch* yn darparu arweiniad pellach ar ddefnyddio offer arbenigol ond isod ceir rhestr o enghreifftiau o offer traddodiadol a nodweddion naturiol y gellid eu cynnwys mewn man chwarae allai gynnig cyfleoedd i chwarae ar gyfer ystod eang o blant a phlant yn eu harddegau.

**Llithrennau** – bydd llithren letach yn cynnig opsiynau mwy hyblyg na llithren gul draddodiadol. Os caiff y llithren ei hadeiladu ar lethr, gellir adeiladu llwybr hygyrch er mwyn sicrhau bod mynediad i'r top yn ddiraffferth.

**Siglenni** – bydd siglenni basged yn dileu'r angen i blentyn allu cynnal ei bwysau ei hun gan y gall orwedd i lawr neu fynd â rhywun gyda nhw i'w cynorthwyo.

**Ysgolion, rhaffau, waliau dringo a rampiau** – ddylen ni ddim osgoi darparu'r rhain mewn ymdrech i fod yn gynhwysol. Bydd darparu ystod o ffyrdd i blant a phlant yn eu harddegau ddefnyddio offer yn rhoi mwy o opsiynau ar gyfer cael mynediad iddo.

**Yr ardal gyfagos** – mae goleuo, parcio, toiledau hygyrch, lled a mathau penodol o gatiâu/gridiau a chyrbau isel yn elfennau sy'n gwneud mynd i mewn i'r safle'n haws. Efallai na fydd gennym reolaeth dros rai o'r elfennau hyn, ond maent yn ffactorau i ystyried dylanwadu arnynt yn y tymor hwy.

**Nodweddion naturiol – plociau, creigiau, deunyddiau rhydd** – cofiwch fod yr eitemau hyn yn rhai 'anghyfarwyddol', gan nad oes ffordd gywir nac anghywir o chwarae a rhyngweithio â nhw – bydd hyn yn caniatáu i'r plant ddehongli sut i'w defnyddio yn eu ffordd eu hunain.

**Profiadau synhwyraidd – chwarae dŵr a thywod** – sy'n gyfleoedd chwarae synhwyraidd gwych ar gyfer plant. Mae plant yn mwynhau chwarae a gorwedd mewn tywod. Mae hefyd yn Arwyneb Esmwytho Ardrawiadau (IAS) dilys, felly gellir ei osod o dan offer, er y bydd angen inni ystyried os yw hyn yn cyfyngu ar fynediad i offer penodol.

**Planhigion, coed a llwyni** – mae'r rhain yn edrych yn ddeniadol yn ogystal â rhannu'r man chwarae a darparu cyfleoedd synhwyraidd ychwanegol. Trwy ddewis rhywogaethau ag aeron sydd ddim yn wenwynig neu â dail sy'n disgyn yn yr Hydref, byddwn hefyd yn darparu cyfleoedd pellach i chwarae gydag elfennau naturiol – bydd rhai plant yn mwynhau creu a dethol gyda dail, brigau ac aeron.

**Symud o amgylch y safle** – dyluniwch 'linellau dymunol' (llwybrau a ffyrdd chwareus) trwy'r safle, sy'n wastad ac ar yr un lefel – bydd hyn yn cynnig ffordd hygyrch o symud o amgylch y safle. 'Dyw hyn ddim yn golygu na allwn gael tirlunio a ffyrdd llai unffurf o archwilio'r safle, ond mae'n caniatáu ar gyfer chwarae cymdeithasol hygyrch trwy'r safle cyfan.

### **Herio'r myth**

#### **Bydd tywod yn achosi problemau gyda chathod, cŵn a llwynogod**

Oni bai bod problemau eisoes gyda baw cathod, cŵn a llwynogod, mae'n annhebyg iawn y bydd ychwanegu tywod i'r safle'n denu anifeiliaid o'r newydd. Fodd bynnag, os oes gennym dywod, bydd archwiliadau/cribinio rheolaidd yn ffurfio rhan o'n rhaglen cynnal a chadw cyffredinol. Bydd pa mor aml y byddwn yn gwneud hyn yn dibynnu ar lefel y defnydd. Cofiwch hefyd fod y mwyafrif o berchnogion anifeiliaid anwes yn bobl gyfrifol. Os oes problem baw cŵn, yna bai nifer fechan o berchnogion yw hyn, fel arfer – ceisiwch dargedu'r grŵp bychan o berchnogion cŵn sy'n achosi'r broblem. Gallwn weithio gyda'r gymuned, gofyn i blant ysgol ddylunio arwyddion 'dim baw cŵn' neu ddechrau ymgyrch gyda chymorth y warden cŵn lleol.

## Adran 7: Safonau offer ardaloedd chwarae



(Dyfyniadau o *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*, 2012)

### **Herio'r myth**

**Os byddwn yn glynu at y safonau bydd dim modd mynd â ni i gyfraith**

'Dyw'r safonau Ewropeaidd a Phrydeinig ar gyfer offer chwarae sefydlog yn ddim ond canllawiau i sicrhau bod offer chwarae gwneuthuredig yn cydymffurfio ag isafswm safonau penodol. 'Dyw cydymffurfio â'r canllawiau hyn ddim yn ofyniad cyfreithiol. Hyd yn oed os yw'r offer y byddwn yn ei brynu'n cyflawni'r safonau hyn, nid yw'n disodli'r angen i gynnal asesiad risg-budd o'r safle'n rheolaidd ac i gynnal archwiliadau rheolaidd fel rhan o'n polisi rheoli risg.

Ni cheir unrhyw ddeddfwriaethau penodol ar ddiogelwch chwarae yn y DU, a chynnal asesiad risg 'addas a digonol' yw'r gofyniad cyfreithiol pennaf (Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999). Ceir safonau diwydiannol cytûn trwy Ewrop, y dylid eu hystyried bob amser wrth gynnal asesiad risg, ac fe'u hystyrir yn gyffredinol mewn achosion cyfreithiol.

Mae safonau'n arfau pwysig wrth reoli risg ac maent yn cynnig canllawiau ar rai materion dyrys. Fodd bynnag, mae camddealltwriaeth am eu rôl a'u statws wedi creu problemau yn y gorffennol.

## PLAYLINK – Barn Gyfreithiol

Yn 2006, comisiynodd PLAYLINK Farn Cwnsler gan gwmni cyfreithwyr Public Interest Lawyers. Aeth y cwmni ati i ddadansoddi polisi chwarae PLAYLINK yn ogystal â'u hagwedd tuag at reoli risg mewn mannau chwarae. 'Dyw hyn ddim yn gysail cyfreithiol ond yn hytrach mae'n farn ddeallus arbenigwr cyfreithiol:

*Dyweddodd mai'r 'agwedd gywir tuag at safonau Prydeinig neu Ewropeaidd yw nid ystyried eu bod yn pennu safonau gorfodol y dylid glynu atynt yn wasaidd ym mhob achos, ond yn hytrach fel canllaw sy'n dynodi'r consensws cyffredinol ynghylch yr hyn y gellid eu hystyried yn ragofalon synhwyrol mewn unrhyw achos.'*  
Aeth ymlaen: 'Os y gall proses synhwyrol o asesu risg, ynghyd â balans rhwng cost, risg a budd gyfiawnhau cefnu ar y safonau hyn, yna ni fyddai unrhyw fethiant i arfer gofal rhesymol.'

Gall dryswch arwain y bobl hynny fydd yn dylunio neu'n comisiynu mannau chwarae i ganolbwyntio'n llwyr ar y ffaith bod modd dangos bod yr eitemau'n cydymffurfio â'r safonau ai peidio. Yn y gorffennol arweiniodd hyn at ddefnydd digon cyfyngedig o nodweddion chwarae sydd ddim yn cael eu trafod yn benodol yn y safonau hyn, fel plociau, creigiau, tirlunio caled, plannu neu newid lefelau. Yn hytrach, bu tueddiad i ddewis y math o offer sy'n cydweddu agosaf â'r rheini a ddisgrifir yn benodol yn y safonau, fel siglenni, llithrennau, rowndabowts ac offer siglo ac aml-chwarae.

Y safonau allweddol ar gyfer darpariaeth chwarae yw:

- **BS EN 1176** – ar offer chwarae sefydlog ac arwynebau
- **BS EN 1177** – ar ddull profi ar gyfer arwynebau esmwytho ardrawiadau
- **BS EN 14974** – ar gyfer cyfleusterau chwaraeon ar olwynion, fel parciau sgleirfyrdio a llwybrau seiclo BMX
- **BS EN 15312** – ar gyfer cyfleusterau chwaraeon pêl, fel ardaloedd gemau pêl.

Gallwch ddysgu mwy am gydymffurfio â safonau offer ardaloedd chwarae oddi wrth eich arolygydd meysydd chwarae cofrestredig. Cewch hyd i arolygwyr trwy [wefan Cofrestr Ryngwladol Arolygwyr Chwarae \(RPII\)](#). Mae briffiadau ar safonau perthnasol a gofynion cysylltiedig ar gael hefyd ar adran diogelwch chwarae [gwefan Y Gymdeithas Frenhinol er atal Damweiniau \(RoSPA\)](#).

## Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu

Wedi ei gynhyrchu gan y Play Safety Forum (grŵp o arbenigwyr a mudiadau cenedlaethol sy'n ymwneud â diogelwch chwarae), a'i ysgrifennu gan David Ball, Tim Gill a Bernard Spiegel, mae'r canllaw hwn yn dangos sut y gall darparwyr chwarae ddatblygu agwedd tuag at reoli risg sy'n ystyried buddiannau profiadau chwarae heriol i blant, yn ogystal â'r risgiau. Mae'n darparu arweiniad manwl ar ofynion cyfreithiol a dulliau ar gyfer cynnal asesiadau risg mewn mannau chwarae. Yn enwedig, mannau sy'n cynnwys nodweddion y gellir chwarae arnynt sydd heb safonau cytûn, fel nodweddion naturiol.

[Lawrlwytho](#)



## Adran 8: Arwynebau Esmwytho Ardrowiadau (IAS)



Mae arwynebau esmwytho ardrawiadau (IAS) yn cyfeirio at rai a ddarperir mewn mannau chwarae gyda'r bwriad o leihau anafiadau'n dilyn cwmpo o uchder. Efallai y'i defnyddir o amgylch nodwedd benodol neu dros y man chwarae i gyd. Caiff darpariaeth IAS ei gwmpasu gan ddwy safon, sef BS EN 1176 ac 1177.

Mae BS EN 1176 yn argymhell IAS ar gyfer cwmpau o uchder sy'n fwy na 0.6 metr.

### **Herio'r myth**

**'Dyw glaswellt ddim yn arwyneb diogel addas**

*Mae Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu (wrth gyfeirio at fersiwn 2008 o'r safon offer chwarae BS EN 1176) yn nodi, 'yn y DU, mae glaswellt gaiff ei gynnal a'i gadw'n ddigonol yn cael ei ystyried yn briodol ar gyfer cwmpau o uchder hyd at 1.5 metr, yn ddibynnol ar asesiad risg'.*

### **Y safbwynt cyfreithiol**

Yn ôl y briffiad arwynebau ardaloedd chwarae ar [wefan RoSPA](#), er nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i IAS gael eu darparu ar feysydd chwarae plant, caiff ei argymhell gan sefydliadau diogelwch fel RoSPA.

*Dywed RoSPA hefyd bod 'setliadau diweddar y tu allan i'r llys, a gododd yn sgîl damweiniau ar feysydd chwarae, yn awgrymu bod y llysoedd yn cydnabod bod darparu arwynebau addas yn cynrychioli arfer dda, yn enwedig o dan offer newydd'.*

### **Atal damweiniau**

Unwaith eto mae RoSPA yn egluro:

*'yn ddi-os, bydd anafiadau pen plant yn llai difrifol yn sgîl darparu arwynebau gwarchodol ond mae codymau o'r fath yn ddigon prin ymysg plant dros bum mlwydd oed. Fydd o ddim yn lleihau damweiniau ond mae'n bosibl y bydd yn lleihau difrifodoleb anafiadau'n dilyn codymau ar arwyneb*

*y maes chwarae – sef tua 50% o anafiadau sy'n arwain at ymweld â'r ysbyty. Ceir rhywfaint o dystiolaeth na fydd yn lleihau torri esgyrn hirion, yn enwedig yn rhan uchaf y corff. Mae tua 30% o anafiadau ar ôl cwmpo'n ymwneud ag offer. Mae pwysigrwydd arwynebau diogelwch, yng nghydestun damweiniau, yn ddigon cyfyngedig a dylid ystyried ei ddarparu mewn persbectif ehangach'.*

## Mathau o arwynebau

Mae RoSPA yn enwi tri phrif fath o IAS ar gyfer mannau chwarae:

**Glaswellt** – Arwyneb aml-bwrpas da ond ddim yn gwrthsefyll traul yn dda iawn nac esmwytho ardrawiadau pan fo'r ddaear yn sych.

**Deunyddiau heb eu llanw'n dynn** – Mae'r rhain yn cynnwys tywod, cynnyrch pren a graean bras. Maent yn dda am esmwytho ardrawiadau ond byddant yn gwasgaru a chwalu. 'Dyw'r rhain ddim yn addas ar gyfer eu gosod o dan offer symudol. Hawdd i'w gosod.

**Arwynebau synthetig** – Ceir tri prif fath:

- Teils – yn gyffredinol effeithlon, hirhoedlog ond gallant fod yn gostus ac anodd eu gosod.
- Tywallt gwlyb – yn gyffredinol effeithlon, hirhoedlog ond costus ac anodd iawn i'w osod.
- Haenog – yn gyffredinol effeithlon ond yn gofyn am rywfaint o waith cynnal a chadw a gall ddiodeff o fandaliaeth a phroblemau traul. Angen arbenigwr i'w osod.

## Asesu arwynebau

### Ei osod o dan hen offer

Mae IAS yn gostus, felly cyn eu gosod dan offer sy'n bodoli eisoes dylid ystyried:

- Cydymffurfio â safonau perthnasol
- Gwerth chwarae gwahanol fathau o ddeunyddiau ac arwynebau
- Lleoliad y safle, ei ddyluniad a'i ddefnydd
- Oedran yr offer
- Ôl troed (yr ardal o dan yr offer).

Nid oes rhaid darparu IAS ar unwaith ar gyfer offer hyn – ond mae'n rhaid inni fod â rhaglen welliannau arfaethedig fel rhan o'n asesiad risg.

## Ei osod o dan offer newydd

Dylai pob darn newydd o offer gael ei ddarparu gydag arwyneb priodol oddi tano. Yn ôl y safonau, nid yw uchder cwmpo o dan 600mm o uchder yn galw am IAS penodol, ond argymhellir y dylai'r llawr feddu ar rywfaint o allu i leddfu ardrawiadau – gall glaswellt weithio'n dda yn y sefyllfa hon. Mewn rhai achosion (er enghraifft offer ar sbrings) mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o amddiffynfa ar lawr, er enghraifft gellir defnyddio deunyddiau atgyfnerthu glaswellt.

## Prynu arwynebau

Argymhellir y dylai cyflenwyr ddarparu sicrwydd bod eu cynnyrch wedi ei brofi'n unol â BS7188 ac EN1177. Dylid ei osod ar yr ardaloedd a nodir yn EN1176. Dylid cyflwyno copïau o dystysgrifau profion priodol ar gais. Dylid derbyn sicrhad ysgrifenedig y bydd y deunydd yn cadw ei lefelau esmwytho ardrawiadau dros oes y warant.

Mae profion ar safle ar gael, gweler [gwefan RoSPA](#) am fanylion.

(ffynhonnell [RoSPA](#))

### *Herio'r myth*


### **Bydd arwyneb diogelwch rwber (tywallt gwlyb) yn atal plant rhag cael eu hanafu**

Dim ond un math o Arwyneb Esmwytho Ardrawiadau (IAS) yw arwyneb diogelwch rwber, sy'n aml iawn yn gostus, ac sy'n galw am offer arbenigol i'w osod. Mae ffurfiau dilys eraill o IAS yn cynnwys glaswellt a deunyddiau heb eu llenwi'n dynn, fel tywod a rhisgl. Bydd yr arwynebau hyn yn galw am raglen archwilio a chynnal a chadw mwy strwythuredig, ond maent hefyd yn cynnig gwerth chwarae ychwanegol.

Am fwy o wybodaeth ar IAS ymwelwch â gwefan RoSPA.

## Adran 9: Caffael – y broses dendro

Mae caffael yn cyfeirio at y broses o brynu nwyddau neu wasanaethau. Wrth ddatblygu man chwarae, bydd angen inni sicrhau ein bod yn derbyn y gwerth gorau gan wneuthurwyr, contractwyr a dylunwyr a bod eu sgiliau a'u dulliau'n ateb gofynion ein mudiad a'n cymuned. Gelwir y broses hon yn broses dendro, ac fe'i hamlinellir isod:







Mae'r adran hon yn darparu dulliau ymarferol ar gyfer datblygu briff tendro, y gellir eu defnyddio i hysbysebu gwaith sydd i'w gynnal ar y man chwarae, sut i greu system sgorio a phenderfynu pwy i'w gyflogi i gyflawni'r gwaith.

Ar y tudalennau nesaf ceir briffiadau tendro ffug y gellir eu defnyddio i helpu i greu briff tendro ar gyfer ein prosiect ni. Mae un wedi ei anelu at y cyfnod dylunio a'r llall at y cyfnod datblygu.

## Polisiau caffael

Dylid nodi bod gan rai sefydliadau mawrion, fel adrannau awdurdodau lleol, bolisiau caffael sy'n amlinellu sut i gynnal y broses dendro, gan gynnwys fformat briffiadau dylunio ac isafswm costau er mwyn galw am dendro (trothwyon).

Mae trothwyon caffael a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gael ar eu gwefan a bydd angen i gyrff sector cyhoeddus (fel awdurdodau lleol) hysbysebu eu cyfleoedd tendro ar wefan [GwerthwchiGymru](#) os yw'r prosiect yn uwch na'r trothwy.

## Sgorio darpar ymgeiswyr

Unwaith i ddau neu dri ymgeisydd posibl gael eu dynodi, byddwn am drefnu i drafod eu argymhellion yn fanylach. Dylid sicrhau bod dau neu dri aelod ar y panel er mwyn gallu cymharu nodiadau.

Cyn y cyfarfod, dylid penderfynu pa griteria sydd bwysicaf er mwyn dod i benderfyniad. Gallai'r rhain fod yn: werth am arian, hanes gyrfa perthnasol, ymwybyddiaeth amgylcheddol, profiad o fannau chwarae hygyrch neu adnabyddiaeth o'r gymuned leol.

Ar [dudalen 42](#) ceir enghraifft o dempled y gellir ei ddefnyddio i helpu gyda'r broses sgorio. Sylwer bod colofn ar gael i 'bwysoli' pob criteria o ran faint o bwys sydd gan hyn ar ein penderfyniad terfynol. Er enghraifft, tra bo prisio'n bwysig, efallai y byddwn yn penderfynu bod dealltwriaeth sefydliad o'r hyn sy'n creu man chwarae o safon yn bwysicach ac y dylai, o ganlyniad, gael mwy o ddylanwad ar bwy y penderfynwn eu cyflogi. O'u cyfuno, dylai'r pwysoli ar gyfer yr holl griteria adio i greu 100% (fydd yn cynrychioli'r holl wybodaeth y byddwn yn ei defnyddio i lunio ein penderfyniad).

## Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin

### Tendr Dylunio – Mynegi Diddordeb

Mae Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Nant y Môr wedi derbyn ariannu gan y Loteri i ail-ddatblygu'r man chwarae ar stâd Trefartin, sydd angen ei adnewyddu'n ddifawr.

Mae ymgynghoriadau helaeth â'r gymuned, a gefnogwyd gan y Swyddog Chwarae Sirol, wedi arddangos angen am fan chwarae y gellir ei ddefnyddio gan yr ystod oedran eang o blant sy'n byw yn yr ardal (o blant meithrin i blant yn eu harddegau). Mae rhieni a phlant yn eu harddegau yn arbennig o awyddus i unrhyw ddatblygiadau ddarparu mannau cymdeithasol ar gyfer eistedd a sgwrsio a mannau ble y gall gwahanol grwpiau oedran gymdeithasu â'i gilydd.

Mae Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin yn awyddus hefyd i unrhyw gynlluniau ar gyfer y man chwarae gynnwys elfennau naturiol a'u bod yn cael eu dylunio i gydweddu â threftadaeth cyfoethog yr ardal.

Mae hygyrchedd o bwys mawr i ni ac i'n cymuned. Rydym am sicrhau bod cymaint â phosibl o'r cyfleoedd a geir yn ein man chwarae yn hygyrch i blant sydd ag amrywiaeth eang o alluoedd.

#### **Rydym am wahodd penseiri tirwedd a dylunwyr mannau chwarae i fynegi diddordeb.**

Ar hyn o bryd, byddwn angen hyd at ddwy ochr o A4 yn disgrifio eich agwedd tuag at ddatblygu lleoliadau chwarae naturiol, eich profiad yn y maes hwn (ynghyd ag enghreifftiau a lluniau, os yn bosibl), eich dealltwriaeth o'r hyn fydd lleoliad chwarae'n anelu i'w gyflawni a rhyw syniad am eich graddfa gostau.

Nodwch os oes gennych unrhyw brofiad o wireddu cynlluniau a'ch bod yn deall y cyd-destun caniatâd cynllunio, chwiliadau tir ac arolygon.

Bydd Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin a'i phartneriaid yn penderfynu os y dylid caniatáu i unrhyw un a fynegodd ddiddordeb symud ymlaen i'r cam nesaf.

#### **Dylech fynegi diddordeb erbyn 6 Chwefror at:**

*Y Cadeirydd  
Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin  
Nant y Môr  
Ynys Môn  
LLXX XNN*

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â:

**cadeirydd@trefartin.org**

**07777 654321**

## Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin

### Tendr Datblygu – Mynegi Diddordeb

Mae Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Nant y Môr wedi derbyn ariannu gan y Loteri i ail-ddatblygu'r man chwarae ar stâd Trefartin, sydd angen ei adnewyddu'n ddifawr.

Mae ymgynghoriadau helaeth â'r gymuned, a gefnogwyd gan y Swyddog Chwarae Sirol, wedi arddangos angen am fan chwarae y gellir ei ddefnyddio gan yr ystod oedran eang o blant sy'n byw yn yr ardal, o blant meithrin i blant yn eu harddegau.

Trwy weithio gyda chwmni penseiri tirwedd lleol, mae gennym bellach gyfres o ddarluniau'n dangos ein cynlluniau ar gyfer y safle.

Rydym yn chwilio am gwmni tirlunio â'r cysylltiadau angenrheidiol â'r diwydiant chwarae i ymgorffori elfennau o offer chwarae pwrpasol ynghyd â'r gofod naturiol yr ydym yn ei ddymuno.

#### **Rydym am wahodd briffiadau tendro manwl gan dirlunwyr, contractwyr adeiladu ac adeiladwyr chwarae arbenigol.**

Ein cyllideb ar gyfer y prosiect hwn yw £75,000. Dylech ddarparu amlinelliadau costau manwl, amserlenni a thystiolaeth o waith tebyg a gwblhawyd gennych.

Os oes gennych ddiddordeb cydweithio gyda chymuned Trefartin i wireddu'r prosiect cyffrous hwn, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad isod i dderbyn copi o'n darluniau ac i gael trafodaeth anffurfiol.

#### **Dylid anfon tendrau wedi eu cwblhau erbyn 6 Chwefror at:**

*Y Cadeirydd  
Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin  
Nant y Môr  
Ynys Môn  
LLXX XNN*

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â:  
**cadeirydd@trefartin.org**  
**07777 654321**



## Taflen sgorio – mynegi diddordeb

Sefydliad	
<b>Agwedd tuag at ddatblygu mannau chwarae naturiol</b>	<b>Pwysoli 30%</b>
<b>Profiad yn y maes (enghreiffiau a lluniau)</b>	<b>20%</b>
<b>Dealltwriaeth o'r hyn y bydd lleoliad chwarae'n anelu i'w gyflawni</b>	<b>30%</b>
<b>Graddfa gostau</b>	<b>20%</b>
<b>Cyfanswm pwysoli</b>	

## Adran 10: Ariannu



Er mwyn datblygu neu adnewyddu man chwarae, bydd angen dynodi ariannu digonol ar gyfer y prosiect. Mae'r adran hon yn nodi rhywfaint o bethau i'w hystyried wrth ddynodi ariannu. Am fwy o gyngor ac arweiniad ar godi arian neu am drosolwg o ffynonellau ariannu lleol a chenedlaethol, cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol (gweler Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth ar [dudalen 58](#)).

### Codi arian

Ceir nifer o wahanol ffyrdd i godi arian:

**Ariannu grant** – Os mai prin yw ein profiad o gwblhau ceisiadau ariannu, dylid cyfeirio at Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth ar [dudalen 58](#)

am gysylltiadau allai fod o gymorth. Bydd ceisio am grantiau'n golygu cwblhau proses ymgeisio allai gymryd rhwng ychydig wythnosau a nifer o fisoedd cyn derbyn penderfyniad, yn dibynnu ar faint y grant. Wedi llwyddo i dderbyn grant, bydd angen cwblhau adroddiad ar gyfer y cyllidwyr yn egluro sut y defnyddiwyd yr arian ac yn cynnwys cyfrif o'r gwariant.

**Codi arian elusennol** – Mae rhai cymdeithasau chwarae lleol wedi eu cofrestru fel elusennau cofrestredig er mwyn codi arian trwy ddulliau elusennol. Am gyngor ar statws elusennol, mynnwch air gyda'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol.

**Ariannu cyngor cymuned** – Gall cynghorau cymuned glustnodi arian ar gyfer prosiectau cymunedol, yn cynnwys prosiectau mannau chwarae. Fodd bynnag, mae'n annhebyg y byddant yn talu am ddatblygiad cyfan. Meddyliwch sut y gallai cyfraniadau rheolaidd helpu gyda gwaith cynnal a chadw parhaus.

**Digwyddiadau cymunedol/codi arian** – Efallai bod grwpiau cymunedol eraill fyddai'n fodlon helpu gyda'r gwaith o godi arian trwy gynnal stondin gacennau, ffeiriau, nosweithiau bingo neu unrhyw un o lu o weithgareddau codi arian eraill. Efallai mai dim ond symiau bychain o arian y bydd y rhain yn eu codi ar y tro, ond bydd yr arian yma'n cronni ac maent hefyd yn sicrhau cyfranogaeth cymunedol.

## Datblygiad araf

Gall datblygu man chwarae newydd, neu adnewyddu un sy'n bodoli eisoes, fod yn broses hynod o gostus. Os byddwch yn ceisio am gyllid i gyd ar unwaith, gall fod yn amser maith cyn i unrhyw beth gael ei ddatblygu – tra bo'r safle'n sefyll yn wag a heb ei ddefnyddio.

Trwy ddilyn y broses ddylunio a argymhellir yn y pecyn cymorth hwn, bydd gennym syniad da o sut y bydd y man chwarae'n edrych wedi ei gwblhau. Edrychwch pa elfennau sydd angen eu cwblhau ac ym mha drefn, ac yna eu datblygu fel y caiff cyllid ei sicrhau. Gall fod yn llawer haws derbyn nifer o grantiau llai neu gasglu swm penodol bob blwyddyn, na fydd hi i ymgeisio a dibynnu ar un cais am grant mawr.

Bydd datblygu safle dros gyfnod o amser, fel y bydd cyllid ar gael, yn golygu y gallwn weld sut dderbyniad y mae'r datblygiadau newydd yn eu cael a sicrhau newidiadau pwrpasol i gynlluniau fydd yn ymateb i anghenion y gymuned.

## Costau rhedeg, cynnal a chadw ac archwilio

Oni bai bod sefydliad arall yn cymryd cyfrifoldeb am gostau rhedeg, cynnal a chadw ac archwilio bydd angen inni sicrhau bod cynlluniau codi arian yn cynnwys costau blynyddol. Bydd y rhain yn cynnwys: yswiriant, torri glaswellt, archwiliadau blynyddol, cynnal a chadw cyffredinol a gwaredu neu gyfnewid offer sydd wedi treulio.

## Treth Ar Werth (TAW)

Ychwanegir TAW i waith gaiff ei wneud ar y man chwarae yn ogystal ag ar offer gaiff ei brynu. Gall hyn fod yn gost ychwanegol sylweddol, na chaiff ei ystyried bob amser wrth dderbyn prisiau. Dylid costio hyn i mewn i'r cynlluniau ariannu, oni bai bod ffyrdd i'w leihau.





## Adran 11: Rheoli risg



Fel rhan o gyfrifoldebau'n ymwneud ag archwilio a chynnal a chadw'r man chwarae, bydd angen cynnal asesiadau risg gweithredol yn rheolaidd. Mae'n debyg y bydd hyn yn un o amodau'r yswiriant.

Ceir nifer o wahanol ffurfiau o asesiadau risg y gellir eu defnyddio, all beri rhywfaint o ddryswch. Prif bwrpas asesiad risg yw dangos ein bod wedi dynodi unrhyw beryglon posibl a'u risgiau cysylltiedig, a'n bod wedi rhoi camau rheoli yn eu lle i reoli'r risgiau hynny. Os oes gennym fformat yr ydym yn gyfarwydd ag e' eisoes, gallwn addasu elfennau ohono.

### Asesu risg-budd

Mae asesu risg-budd yn agwedd tuag at asesu risg sy'n gweddu'n benodol i'r sefyllfaoedd hynny ble mae budd mewn caniatáu i rywfaint o risg aros. Mae hon bellach yn cael ei chydabod yn gyffredinol fel agwedd briodol tuag at reoli

risg mewn darpariaeth chwarae plant, fel a gymeradwywyd gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Mae'r agwedd hon yn galluogi darparwyr i dystio i'w ymresymiad wrth lunio penderfyniadau sy'n ceisio taro cydbwysedd rhwng buddiannau gweld plant yn profi ansicrwydd a her yn eu chwarae gyda'n dyletswydd fel darparwyr i warchod plant rhag lefel risg afresymol o uchel o niwed difrifol. Gallai'r broses hon arwain at ddynodi mesurau rheoli fydd yn lleihau'r risg o anafiadau difrifol tra'n caniatáu i rywfaint o risg aros.

### Cynnwys cyngor arbenigol

Yn y bôn, *'mae asesu risg-budd yn offeryn ar gyfer gwella llunio penderfyniadau mewn unrhyw gyd-destun ble mae rhaid taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau'*. Bwriad y broses yw dod i benderfyniad deallus a rhesymegol. Yn bwysig iawn, gallai'r broses hon gynnwys mewnbwn

cyngor arbenigol. Ceir sefyllfaoedd fel rhai fydd yn galw am ddealltwriaeth dechnegol fanwl sydd y tu hwnt i ddirnadaeth llawer ohonom. Er enghraifft, beth yw'r pren priodol ar gyfer adeiladu ac oblygiadau unrhyw safonau diwydiannol. Gall arbenigwyr o'r fath gynnig cyngor ac arweiniad defnyddiol ond bydd y penderfyniad terfynol, a'r cyfrifoldeb cyfreithiol, am daro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau'n aros gyda'r darparwr.

## Naratif yn hytrach na rhifau

Mae *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* yn eiriol o blaid agwedd ddisgrifiadol neu naratif tuag at asesu risg-budd, sydd ddim yn cynnwys pennu enrhifiadau a gwerthoedd rhifol i risgiau a buddiannau. 'Does dim synnwyr ceisio pennu sgôr ar gyfer troi ffêr yn erbyn y wefr o ddringo coeden neu raddio pleser chwarae mewn tywod yn erbyn y perygl o gael anaf gan ddarn o sbwriel.

Mae agwedd ddisgrifiadol yn galluogi cael trafodaeth llawer mwy cytbwys a rhesymegol ynghylch buddiannau a risgiau, tra hefyd yn cyflawni ein dyletswydd gyfreithiol fel darparwr i gynnal 'asesiad addas a digonol' o'r risgiau a gyflwynir gan y man chwarae. Gallai'r asesuadau risg-budd hyn gwmpasu'r man chwarae cyflawn a/neu ganolbwyntio ar nodweddion penodol a geir ynddo.

## Ystyriaethau

Isod rydym wedi cynnwys set gyffredinol o gwestiynau o *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* allai fod yn sail ar gyfer asesiad risg-budd. Y nod yw tystio eich bod wedi ffurfio barn resymol ac ymarferol ac, o ganlyniad, dylech ystyried cynnwys ffynonellau'r wybodaeth yr ydych wedi ei defnyddio i lunio eich barn. Gallai asesiad risg-budd eich ysgogi i ystyried:

- Beth yw'r buddiannau i'r plant a phobl eraill? Gallent gynnwys yr ystod o fuddiannau gaiff chwarae ar les a datblygiad plant, buddiannau

i'r gymuned leol, buddiannau costau llai, a/ neu fuddiannau gostyngiad mewn peryglon annymunol.

- Beth yw'r risgiau? Gallent gynnwys risg niwed ac anafiadau i blant, risg derbyn cwynion neu fynd i gyfraith, risg difrod amgylcheddol, a risgiau ariannol.
- Pa safbwyntiau sydd ar gael ar natur y risg, a pha mor awdurdodol yw'r rhain? Gallent gynnwys arbenigwyr technegol, arweiniad gan sefydliadau atal damweiniau, a chyhoeddiadau awdurdodol gan fudiadau chwarae cenedlaethol.
- Pa ffactorau lleol perthnasol fydd angen eu hystyried? Gallai hyn gynnwys nodweddion yr amgylchedd lleol a'r defnyddwyr tebygol.
- Beth yw'r opsiynau ar gyfer rheoli'r risg, a beth yw manteision, anfanteision a chostau pob un o'r rhain? Dylid gwerthuso opsiynau a thrafod unrhyw wybodaeth newydd. Mae posibiliadau'n cynnwys cynyddu'r cyfleoedd arweiniodd at yr asesiad, lleihau neu ddileu'r risg, gwneud dim, a monitro'r sefyllfa.
- Pa ragesiamplau a chymariaethau sydd ar gael? Gallai'r rhain fod o leoliadau neu wasanaethau cymaradwy yn ogystal ag oddi wrth ddarparwyr eraill.
- Beth yw'r farn risg-budd? Mae'r rhain yn dibynnu ar bolisiâu ac amcanion y darparwr yn ogystal ag amgylchiadau lleol. Dylid monitro penderfyniadau a'u hadolygu bob hyn a hyn.
- Sut ddylid gweithredu'r farn hon gan ystyried pryderon gwleidyddol, credau ac agweddau diwylliannol lleol? Gallai hyn gynnwys cofio ystyried safbwyntiau rhieni ac oedolion lleol eraill, darparwyr lleol, ac ystyried traddodiadau lleol.

### Taflen wybodaeth *Chwarae a risg*

Mae'r daflen wybodaeth hon, a ysgrifennwyd gan Tim Gill ac a gyhoeddwyd gan Chwarae Cymru'n yn egluro pam fod angen agwedd gytbwys, ystyriol tuag at reoli risg mewn chwarae plant.

**Lawrlwytho**



## Polisi drafft rheoli risg

Cyn cwblhau asesiadau risg-budd penodol, mae'n hanfodol bod gennym '*athroniaeth, sail resymegol, neu ddiben cytûn, a'n bod yn datgan beth yw hyn*'. Bydd angen llunio penderfyniadau yn erbyn cefndir polisi sy'n egluro'n blaen y gwerthoedd a'r egwyddorion y byddwn yn seilio ein penderfyniadau am risg arnynt, a pham fod risg yn elfen hanfodol o chwarae plant.

Ar y dudalen nesaf ceir ffug-bolisi rheoli risg y gellir ei addasu at ein defnydd ein hunain. Mae'r polisi'n amlinellu'r agwedd risg-budd tuag at reoli risg ac mae'n caniatáu inni gofnodi ein gweithdrefnau ein hunain, amllder archwiliadau a'n rhaglen cynnal a chadw gyffredinol, er enghraifft. Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar *Fframwaith Rheoli Risg Conwy a Wrecsam: Polisi, Trefn Arferol ac Asesu Risg-Budd Dynamig*.

## Systemau rheoli risg

Defnyddir y term rheoli risg yn y polisi hwn i gyfeirio at bob elfen sydd ynghlwm â'r broses o reoli risg allai, ac a ddylai, gynnwys llawer mwy nag asesiadau risg ar bapur yn unig. Ble fo'r elfennau hyn i gyd yn cael eu cefnogi'n ddigonol, mae potensial i ddatblygu systemau rheoli risg cryfach a mwy deallus.

## Darparu ar gyfer risg a her mewn darpariaeth chwarae

Mae Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin yn cydnabod bod plentyndod yn llawn profiadau newydd fydd, o reidrwydd, yn cynnwys rhyw elfen o risg neu fentro, boed yn gorfforol neu'n emosiynol. Mae plentyndod yn broses barhaus o brofi a methu gyda'r posibilrwydd o lwyddo, ond yn ogystal â damweiniau anochel. Fyddai plant fyth yn dysgu sut i gerdded, dringo grisiau na mynd ar gefn beic oni bai eu bod wedi eu symbylu'n gryf i ymateb i heriau sy'n cynnwys perygl anafiadau.

Mae gennym ddyletswydd gofal i geisio amddiffyn unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'n cyfleusterau rhag effeithiau niweidiol, tymor hir

posibl wynebu niwed corfforol ac emosiynol difrifol ac afresymol. Fodd bynnag, wrth wneud hyn ddylen ni ddim ei anwybyddu, neu ei geisio ar draul galluogi plant i gyfranogi'n weithredol yn eu datblygiad personol eu hunain o iechyd, lles a gwytnwch, o ganlyniad i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd â chanlyniadau ansicr.

## Asesu risg-budd

Caiff penderfyniadau am yr hyn sy'n rhesymol a'r dymuniad i blant ddelio â pheryglon, eu llunio gan ddefnyddio agwedd risg-budd. Mae'r broses hon yn cynnwys ystyried y buddiannau posibl a gyflwynir gan gyfle ynghyd ag unrhyw ganlyniadau negyddol posibl, ac yna llunio barn os yw'r posibilrwydd o anaf yn gymesur â'r buddiannau. Hynny yw, ydi'r buddiannau posibl yn cyfiawnhau caniatáu i berygl anaf aros?

At ddibenion asesiadau risg-budd, gall buddiannau fod yn rhai corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu amgylcheddol (ac maent yn debyg o fod yn gyfuniad o'r rhain i gyd). Gellir dynodi risg anaf trwy ystyried y tebygolrwydd y bydd unrhyw anaf posibl yn digwydd ynghyd â difrifoldeb posibl yr anaf hwnnw.

## Camau rheoli rhesymol

Yn ystod y broses risg-budd mae'n bosibl y bydd angen dynodi camau rheoli er mwyn lleihau'r perygl o anafiadau i lefel derbyniol. Fodd bynnag, bydd y camau rheoli, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu gweithredu, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Bydd rhaid cyfiawnhau cost unrhyw gamau rheoli posibl trwy sicrhau eu bod yn gymesur â'r perygl anaf cysylltiedig.

Cyn cyflwyno unrhyw gamau rheoli, dylid ystyried hefyd unrhyw effeithiau negyddol posibl allai godi'n sgîl gwneud ymyrraeth o'r fath. Er enghraifft, mae'n bwysig na chaiff angen plant i ddefnyddio eu hamgylchedd mewn ffyrdd newydd ac annisgwyl, eu cyfyngu mewn ymgais i ddarparu amddiffyniad llwyr rhag anafiadau.



## Gwiriadau safle ac archwiliadau technegol

Ar safleoedd chwarae heb eu staffio, gellir cynnal gwiriadau ysbeidiol er mwyn dynodi a rheoli

peryglon. Fodd bynnag, bydd amlder y gwiriadau hyn yn dibynnu ar yr hyn y gellir, yn rhesymol, ei gyflawni o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, y math o gyfleuster a'i leoliad.

### Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin Polisi Rheoli Risg

Datblygwyd y polisi hwn i ddarparu agwedd gydlynol, gyson a chytbwys tuag at reoli risg ar Fan Chwarae Cymdeithas Chwarae Cymuned Trefartin ac i sicrhau gwell eglurder dealltwriaeth ynghylch y mater hwn.

Trwy hyn, mae'r polisi'n anelu i herio rhywfaint ar natur ofn risg ein cymdeithas heddiw, all gyfyngu ar brofiadau chwarae plant.

Cefnogir y polisi gan y datganiad canlynol a gyhoeddwyd gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn 2012:

*'Mae chwarae'n wych ar gyfer lles a datblygiad plant. Wrth gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, y nod fydd nid dileu risg, ond pwysu a mesur y risgiau a'r buddiannau. Fydd yr un plentyn yn dysgu am risg os yw wedi ei lapio mewn gwllân cotwm'.*



Mae'r tabl isod yn nodi amlder cytûn ar gyfer cynnal archwiliadau cyffredin a thechnegol.


Math o wiriad	Amllder	Nodiadau
Archwiliad technegol blynyddol	Blynyddol	I'w gynnal gan arolygydd Cofrestr Ryngwladol Arolygwyr Chwarae (RPII)
Archwiliad cyffredin	Bob chwarter	Gwiriad trylwyr o bob darn mecanyddol, arwyddion o rwd/ pydru a phrofi pob darn o offer. Sicrhau bod asesiadau risg-budd y safle'n ystyried canfyddiadau o'r archwiliadau cyffredin a blynyddol
Archwiliad cyffredin	Wythnosol	Gwirio am arwyddion o gamddefnyddio bwriadol, fandaliaeth neu offer neu nodweddion wedi eu difrodi. Cofnodi unrhyw faterion a chymryd camau priodol i'w cywiro
Cynnal a chadw cyffredin	Wythnosol	Casglu sbwriel, cribinio'r tywod, chwilio am wrthrychau peryglus
Torri glaswellt	Bob mis yn ystod y tymor tyfu	Gadael ardaloedd ger y coed i dyfu'n wyllt

## Crynodeb

- Mae gwerth cynhenid i blant o brofi ansicrwydd a her personol trwy eu chwarae.
- Mae angen i blant deimlo'n rhydd i brofi risg a her o'u dewis eu hunain. Fyddan nhw ond yn gallu gwneud hyn os byddwn yn caniatáu i ryw elfen o ansicrwydd aros.
- Mae'r ddarpariaeth chwarae y byddwn yn ei greu'n anelu i gefnogi plant i brofi lefelau rhesymol o risg drostynt eu hunain.
- Mae angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau lefelau priodol o amddiffyn, a gwarchod lefelau rhesymol o ansicrwydd.
- Rydym yn anelu i reoli risg fel bod, pryd bynnag y bo'n rhesymol bosibl, y risg o anaf y bydd plant yn ei wynebu'n gymesur â'r buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.
- Bydd camau rheoli'n rhesymol a realistig, tra'n sicrhau y caiff risgiau diangen eu lleihau.
- Mae rheoli risg yn ymgorffori nifer o wahanol elfennau sy'n gweithio gyda'i gilydd i lunio cylchdro parhaus, fydd yn gwella ein arfer.
- Mae plant yn gwbl abl i reoli rhywfaint o risg drostynt eu hunain a bydd eu gallu'n datblygu wrth i'w profiad gynyddu.



## Adran 12: Taflen asesu risg-budd



Mae'r Play Safety Forum wedi cynhyrchu offeryn ymarferol sy'n mynd i'r afael â'r diwylliant gwrth-risg ac sy'n dadlau achos cadarnhaol o blaid risg ac antur fel cynhwysion allweddol o chwarae plant. Cefnogir y fenter gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a Llywodraeth y DU.

Mae *Ffurflen Asesu Risg-Budd* y Play Safety Forum yn offeryn rhwydd i'w ddefnyddio sy'n cynorthwyo darparwyr chwarae i gydbwysu buddiannau unrhyw weithgaredd gydag unrhyw risgiau cynhenid, gan ystyried y risgiau tra'n cydnabod buddiannau profiadau chwarae heriol i blant a phobl ifanc.

Mae'r ffurflen hon wedi ei chynllunio i gefnogi agwedd gytbwys tuag at reoli risg gan ddefnyddio'r broses o asesu risg-budd (ARB).

Caiff ei hanelu at y bobl hynny sydd â rôl wrth ddarparu cyfleoedd chwarae mewn amrywiol gyd destunau, yn cynnwys ardaloedd chwarae, parciau cyhoeddus, llecynnau gwyrddion, lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol, lleoliadau gwaith chwarae, ysgolion a gwasanaethau blynyddoedd cynnar.

Mae'n ehangu ar y ddogfen ganllaw *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*, a gyhoeddwyd gan y Play Safety Forum gyda Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland.

Dylai'r rheini sy'n defnyddio'r ffurflen hon ganolbwyntio ar y risgiau sylweddol y bydd y ddarpariaeth chwarae'n eu cyflwyno. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn diffinio risgiau sylweddol fel risgiau sy'n waeth na'r rhai a wynebir fel rhan o fywyd bob dydd ac *'allai, o bosibl, olygu risg gwirioneddol i iechyd a diogelwch, y byddai unrhyw berson rhesymol yn sylwi arno ac yn cymryd camau i warchod yn ei erbyn.'*





## Adran 13: Yswiriant



Hyd yn oed pan fydd prosesau rheoli risg gwych yn eu lle, weithiau fe all ac fe fydd damweiniau'n digwydd. Os y digwydd damwain a'n bod mewn sefyllfa ble fo rhaid talu iawndal, bydd yswiriant digonol yn hanfodol.

Bydd dewis pa gwmni fydd yn darparu yswiriant yn benderfyniad lleol iawn ac efallai bod gennym berthynas dda gyda chwmni yswiriant eisoes neu efallai y bydd yr yswiriant ar gyfer y safle'n rhan o bolisi cyffredinol sy'n cwmpasu cyfleusterau eraill yn y gymuned.

Mae'n bwysig rhannu'r polisi rheoli risg gyda'r cwmni yswiriant er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r agwedd risg-budd gaiff ei defnyddio a'r mesurau a roddwyd yn eu lle i reoli risg.

Oherwydd yr holl ddewis sydd ar gael, efallai y byddai'n ddefnyddiol siarad gyda grwpiau eraill sy'n rheoli ardaloedd chwarae er mwyn dysgu am eu profiadau nhw gyda gwahanol gwmnïau. Gall y Swyddog Chwarae Sirol ddarparu manylion cyswllt ar gyfer grwpiau eraill os oes angen. (Gweler Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth ar [dudalen 58](#)).

### *Herio'r myth*

**Os y byddwn yn prynu ein hoffer oddi wrth wneuthurwr offer chwarae, fydd dim angen inni gynnal asesiad risg-budd**

Mae asesiad risg-budd yn rhan allweddol o broses rheoli risg barhaus a bydd angen ei gynnal yn rheolaidd. Bydd angen asesu risg cyflwr unrhyw ddarnau o offer sefydlog yn ogystal â mynedfeydd a nodweddion naturiol sydd ar y safle.

## Adran 14: Arwyddion



Ceir gofyniad cyfreithiol, dan Ddeddfau Atebolrwydd Meddianwyr 1957, 1984 i sicrhau bod arwyddion cywir a digonol yn cael eu gosod mewn ardaloedd chwarae penodedig.

Gall arwyddion chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr at ddibenion adrodd am ddamweiniau a difrod.

### Cynnwys arwyddion

Dylai arwyddion ardaloedd chwarae gynnwys:

- Enw gweithredwr y safle.
- Manylion cyswllt ar gyfer adrodd am ddifrod neu ddamweiniau. Ble fo gan y gweithredwr swyddfa barhaol, dylai'r manylion gynnwys y rhif ffôn. Ble fo clerc yn gweithio o adref, efallai na fydd cynnwys rhif ffôn yn briodol.
- Lleoliad y ciosg ffôn agosaf ar gyfer cysylltu â'r gwasanaethau brys (ddim yn hanfodol).
- Argymhellir yn gryf y dylid cynnwys arwyddion pictogram 'Dim Cŵn'.
- Ble fo gwifrau trydan uwchben y safle, argymhellir gosod arwyddion 'Dim Hedfan Barcutiaid'.
- Ble fo ardal chwarae ger ffordd, dylid ystyried defnyddio arwyddion ffyrdd i rybuddio gyrwyr

ynghylch presenoldeb maes chwarae (dylid cysylltu â'r Adran Prifffyrdd Lleol i ddarparu'r rhain).

Dylai arwyddion hefyd fod yn groesawus a phlant-gyfeillgar. Os yn bosibl, dylid gweithio â phlant lleol a'u cael i helpu i ddylunio arwyddion sy'n adlewyrchu'r gymuned a'r plant sy'n byw yno.

Sylwer bod llawer o gyllidwyr yn hapus iawn i'w logos ymddangos ar arwyddion, fel cydnabyddiaeth.

### *Herio'r myth*

#### **Mae graffiti yn arwydd o fandaliaeth**

Mewn gwirionedd gall graffiti fod yn arwydd o berchenogaeth safle ac mae'n rhan o ddiwylliant plant yn eu harddegau. Bydd ardaloedd chwarae ar olwynion yn enwedig yn destun graffiti, yn ogystal ag offer chwarae arall a ddefnyddir gan blant yn eu harddegau. Dylid derbyn hyn fel arwydd o fan chwarae llwyddiannus. 'Dyw waliau graffiti ddim yn dueddol o weithio yn y tymor hir, oherwydd bod pobl ifainc am 'tagio' eitemau sy'n bwysig iddyn nhw (er enghraifft siglenni, rampiau, llochesi), yn hytrach na wal lonydd.



## Adran 15: Cynnal a chadw ac archwilio



Mae'r adran hon yn edrych ar pa gyfrifoldeb fydd angen inni ei dderbyn am y man chwarae o ran cynnal a chadw ac archwilio parhaus. Os y byddwn yn rheoli hyn ein hunain bydd angen inni ddeall y prosesau dan sylw.

Efallai ein bod wedi dod i gytundeb gyda'r Cyngor Cymuned neu'r awdurdod lleol ynghylch cynnal a chadw ac archwiliadau. Os yw hyn yn wir, cyfeiriwch at Adran 4 – Lluio partneriaethau ar [dudalen 24](#), ble y ceir templed ar gyfer Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y gellir ei addasu i weddu i'n anghenion.

**Archwiliadau ar ôl gosod offer** – Fel arfer bydd y rhain yn amod yn y cytundeb gyda'r cyflenwr neu'r gosodwr er mwyn sicrhau bod y man chwarae'n addas at ddefnydd cyn trosglwyddo'r safle. Bydd yr archwiliad yn sicrhau bod yr holl offer wedi ei osod yn gywir ac yn cynnig argymhellion ynghylch cydymffurfio â safonau. Fel gydag archwiliadau

blynyddol, bydd angen i'r rhain gael eu cynnal gan arolygwr meysydd chwarae annibynnol proffesiynol gymwys.

**Archwiliadau blynyddol** – Er nad yw'n orfodol cynnal archwiliad blynyddol o'ch man chwarae, mae HSE a RoSPA'n eu hargymell yn gryf. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn ofniad gan y cwmni yswiriant ac mae'n bosibl y byddai'n peryglu ein sefyllfa mewn achos hawliad am iawndal yn dilyn damwain.

Trefnwch archwiliad blynyddol trwy arolygwr meysydd chwarae annibynnol proffesiynol gymwys. Mae'r [Gofrestr Ryngwladol Arolygwyr Chwarae \(RPII\)](#) yn cynnal rhestr o arolygwyr cymwysedig.

Gall [RoSPA](#) gynnig cyngor hefyd ar archwiliadau ac efallai y gallant arbed arian inni trwy drefnu 'archwiliad mewn trefn', fyddai ar adeg benodol o'r flwyddyn pan fydd eu harolygwyr yn gweithio yn yr ardal leol.



**Archwiliadau cyffredin (gweithredol)** – Dylid cynnal y rhain bob tri mis, a'r bwriad yw y byddant yn sicrhau ein bod yn gwirio materion a ddynodwyd gan yr archwiliad blynyddol. Mae'n synhwyrol defnyddio adroddiad yr archwiliad blynyddol fel canllaw ar gyfer sut i gynnal archwiliadau gweithredol. Bydd yn cynnwys gwiriad trylwyr o unrhyw gydrannau mecanyddol, olion rhydu/pydru a phrofi'r offer i gyd.

Mae hyfforddiant ar gael ar y modd cywir i gynnal archwiliadau cyffredin. Am fwy o gyngor, cysyllter â'r Swyddog Chwarae Sirol neu RoSPA. (Gweler Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth ar [dudalen 58](#)).

**Gwiriadau cynnal a chadw dyddiol/wythnosol** – Mae'r rhain yn wiriadau dyddiol neu wythnosol rheolaidd, ddylai fod yn rhwydd a chyflym i'w cyflawni. Chwilio am arwyddion o gamddefnydd bwriadol, fandaliaeth a chasglu sbwriel neu unrhyw eitemau peryglus. Bydd pa mor aml y cynhelir y rhain yn dibynnu ar lefel y defnydd. Ar [dudalen 55](#) ceir taflen y gellir ei defnyddio i gofnodi'r gwiriadau rheolaidd hyn.

**Ystyriaethau cynnal a chadw** – Bydd angen rhaglen reolaidd o gynnal a chadw ac archwiliadau ar gyfer y man chwarae, i'w chyflawni un ai gan y sefydliad neu ei rhoi allan ar gontract. Bydd y modd y caiff hyn ei drefnu'n dibynnu ar y sefyllfa leol. Isod ceir ffactorau y dylid eu hystyried yng nghyd-destun cynnal a chadw.

- Allwn ni ddynodi sefydliad lleol allai dderbyn cyfrifoldeb am gynnal a chadw?
- Pa gynnal a chadw cyffredinol fydd angen? Gall y gymuned leol gasglu sbwriel, torri gwair a chwblhau gwaith atgyweirio cyffredinol.
- Pa waith cynnal a chadw arbenigol fydd angen? Byddai'n well gadael y gwaith o osod darnau newydd ar offer chwarae i arbenigwr.
- Faint fydd y cynlluniau cynnal a chadw'n costio? Unwaith i'r gyllideb gael ei phennu, bydd angen inni ystyried hyn wrth drefnu ein gweithgareddau codi arian.



### **Herio'r myth**

#### **Ni ddylid croesawu oedolion eraill i fannau chwarae**

Mae mannau chwarae'n fannau cymunedol a dylid eu rhannu. Yn ogystal, efallai y byddai gardd gymunedol 'chwaraeadwy', er enghraifft, yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer ariannu amgen. Gall rhieni, gofalwyr a neiniau a theidiau elwa o gael man cymdeithasol gaiff ei rannu, ble y gallant gwrdd ag oedolion eraill a ble y gall y plant chwarae. Bydd man chwarae cymunedol gaiff ei rannu â phresenoldeb oedolion eraill yn well am ateb anghenion chwarae plant gan fod pobl wrth law i gynnig cymorth os y caiff rhywun ei anafu neu os yw bwlio neu ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn broblem.

## Gwiriadau man chwarae cyffredin

Dyddiad	Problemau/beth gafodd ei wneud	Sgôr (Gweler yr Allwedd)	Enw / llofnod	Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol
	Er enghraifft: Wedi casglu sbwriel, wedi gwaredu gwydr wedi torri, wedi gwirio sedd siglen wedi ei difrodi	Er enghraifft: 4		Er enghraifft: Argymhell cynnal gwiriadau dyddiol dros yr haf. Ychwanegu'r sedd siglen wedi ei difrodi i'r rhestr wirio archwiliadau cyffredin

**Allwedd (sgorio) Dylid pennu rhif rhwng 1-5 i gynrychioli'r lefel difrod/gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar bob ymweliad.**

**1** = dim neu fawr ddim sbwriel, dim difrod

**2** = rhywfaint o sbwriel, arwyddion traul a defnydd rheolaidd

**3** = sbwriel cymedrol/gwaredu rhywfaint o wrthrychau peryglus

**4** = sbwriel a/neu ddifrod sylweddol

**5** = arwyddion o ddefnydd sylweddol iawn/llawer o sbwriel/gwrthrychau peryglus i'w gwaredu/angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd sylweddol

SYLWER – Fel canllaw, os bydd y safle, fel arfer, yn sgorio 1 neu 2 efallai y bydd gwiriadau wythnosol yn ddigonol, os yw'n sgorio 4 neu 5, efallai y bydd angen gwiriadau dyddiol. Gallwn ddefnyddio'r daflen hon i fonitro lefel y gwaith cynnal a chadw sydd ei angen yn ogystal â newidiadau tymhorol.

## Adran 16: Cynllunio mannau ar gyfer chwarae



Mae'r adran hon yn edrych ar y safonau a'r arweiniad sy'n bodoli'n lleol a chenedlaethol ynghylch pa fannau ddylai fod ar gael ar gyfer chwarae mewn cymuned, tref neu bentref penodol, yn erbyn ffactorau demograffig fel poblogaeth, nifer o gartrefi a maint yr ardal. Bwriedir iddo eich helpu i lywio trwy rhywfaint o'r jargon a ddefnyddir mewn polisïau cynllunio.

### Polisi Cynllunio Cymru

Cyhoeddwyd 10<sup>fed</sup> argraffiad *Polisi Cynllunio Cymru* ym mis Rhagfyr 2018. Mae'n amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar ddefnydd tir. Ers 2005 bu gofyn i awdurdodau lleol ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Bwriedir i gynlluniau datblygu ddarparu sail ar gyfer llunio penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau ac apeliadau cynllunio ar lefel awdurdod lleol. Mae'r system CDLI yn anelu i leihau'r amser a dreulir ar baratoi cynlluniau, trwy ymgysylltu â grwpiau buddiant perthnasol yn gynnar yn y broses a sicrhau eu bod yn parhau i gyfranogi trwy gydol y broses.

### Canllawiau ar gyfer chwaraeon a chwarae awyr agored

Mae Fields in Trust (FIT), yn darparu cyngor ac arweiniad ar faterion cynllunio a pholisi cynllunio sy'n effeithio ar ddarpariaeth a gwarchod mannau ar gyfer chwarae awyr agored a hamdden. Defnyddiwyd eu 'Safon Chwe Erw' fel meincnod ar gyfer cynllunio mannau chwarae a hamdden ers y 1930au.

*Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored Y tu hwnt i'r Safon Chwe Erw*, yw'r fersiwn ddiweddaraf o arweiniad FIT sy'n cwmpasu'r DU i gyd – ceir atodiad penodol sy'n cwmpasu'r cyd-destun polisi gwahanol yma yng Nghymru.

Mae FIT yn argymhell canllawiau meincnod ar gyfer darparu gwahanol fathau o fannau agored cyhoeddus ffurfiol ac anffurfiol sy'n seiliedig ar hectarau i bob 1000 o'r boblogaeth, yn ogystal â chanllawiau hygyrchedd sy'n seiliedig ar bellter ac amser cerdded. Mae FIT hefyd yn dosbarthu mannau chwarae penodedig yn dri gwahanol faint a math ac yn gwneud argymhellion o ran yr ystod o ardaloedd chwarae a ddarperir yn ôl y nifer o gartrefi:



Maint y datblygiad	Ardaloedd Lleol ar gyfer Chwarae (LAP)	Ardaloedd Lleol ag Offer ar gyfer Chwarae (LEAP)	Ardaloedd Cymdogaethau ag Offer ar gyfer Chwarae (NEAP)
5 - 10 cartref	X		
10 - 200 o gartrefi	X	X	
201 - 500 o gartrefi	X	X	
500+ o gartrefi	X	X	X

Ceir mwy o wybodaeth ar [wefan FIT](#).

## Cytundebau Adran 106

Mae Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn galluogi i rwymedigaeth cynllunio gael ei chytuno rhwng datblygwr a'r awdurdod cynllunio lleol. Yn aml iawn, bydd darparu maes chwarae ar safleoedd a fwriedir ar gyfer datblygiadau tai newydd yn rhwymedigaeth cynllunio o'r fath. Mae hyn yn rhoi cyfle i ariannu gael ei ryddhau ar gyfer datblygu ardaloedd chwarae ble fo cartrefi preswyl newydd yn cael eu hadeiladu.

## Nodyn Cyngor Technegol 16 (TAN 16) – Asesiadau Mannau Agored

Fel y nodwyd uchod, mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Caiff hyn ei gefnogi ymhellach gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) ar bynciau penodol.

Mae TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored yn datgan:

*'Er bod manau chwarae ffurfiol sy'n cynnwys cyfarpar yn darparu cyfleoedd, yn enwedig i blant ifanc o fewn cymunedau, nid dyna'r unig ffurf o*

*ddarpariaeth y dylid ei chynnig. Gall lleiniau ar gyfer chwarae ar olwynion, gemau pêl, "gofodau chwarae adwy", coetir cymunedol a manau anffurfiol ar gyfer "chwarae amgylcheddol" i gyd ddarparu cyfleoedd i blant ryngweithio â'i gilydd, a manteisio ar y buddion cymdeithasol ac iechyd a lles a enillir trwy gyfleoedd chwarae egniol a chorfforol.'*

Fel rhan o TAN 16, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal 'Asesiadau Mannau Agored'. Mae'r asesiadau hyn yn cynnig cyfle i ddynodi nifer ac ansawdd y manau agored mewn ardal. Y camau allweddol ar gyfer asesiadau manau agored, yn ôl crynodeb TAN 16, yw:

- Dynodi anghenion lleol
- Archwilio'r ddarpariaeth leol
- Pennu'r safonau darparu
- Cymhwysu'r safonau darparu
- Drafftio polisïau ar gyfer y cynllun datblygu.

At hynny, mae TAN 16 yn datgan efallai y bydd awdurdodau lleol yn dewis defnyddio meincnodau FIT Cymru ond y gallent hefyd ddatblygu safonau sy'n cydweddu'n well gydag amgylchiadau lleol.

## Pwy i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth

Cyswllt	Cymorth	Manylion
<b>Swyddog Chwarae neu Wasanaeth Chwarae yr awdurdod lleol</b>	Ariannu, rheoli risg, darpariaeth gwaith chwarae	<a href="http://www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links">www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links</a>
<b>Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol</b>	Cyfranogaeth, ariannu, gweithgareddau, gofal plant, gwybodaeth i deuluoedd	<a href="http://llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd-lleol">llyw.cymru/dod-o-hyd-ich-gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd-lleol</a>
<b>Cyngor Gwirfoddol Sirol</b>	Ariannu, cymorth i fudiadau gwirfoddol	<a href="http://www.childreninwales.org.uk/cy/yn-eich-ardal/cynghorau-gwirfoddol-sirol/">www.childreninwales.org.uk/cy/yn-eich-ardal/cynghorau-gwirfoddol-sirol/</a>
<b>Cynllunio a'r Amgylchedd yr awdurdod lleol</b>	Gwybodaeth am y broses gynllunio	<a href="http://www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links">www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links</a>
<b>Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod lleol</b>	Baeddu gan gŵn	<a href="http://www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links">www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links</a>
<b>RPII – Cofrestr Ryngwladol Arolygwyr Chwarae</b>	Canfod arolygwr meysydd chwarae	<a href="http://www.playinspectors.com">www.playinspectors.com</a>
<b>RoSPA – Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau</b>	Briffiadau, hyfforddiant a chyngor ar-lein	<a href="http://www.rospa.com">www.rospa.com</a>
<b>Adran Parciau yr awdurdod lleol</b>	Gwybodaeth am barciau a mannau agored	<a href="http://www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links">www.wlga.cymru/welsh-local-authority-links</a>
<b>Un Llais Cymru</b>	Cymorth a chynrychiolaeth ar gyfer cynghorau tref a chymuned	<a href="http://www.unllaiscymru.org.uk">www.unllaiscymru.org.uk</a>
<b>Cefnogi Trydydd Sector Cymru</b>	Cyngor ariannu cynaliadwy	<a href="http://thirdsectorsupport.wales/cy/cyllid-cynaliadwy/">thirdsectorsupport.wales/cy/cyllid-cynaliadwy/</a>
<b>Chwarae Cymru</b>	Cyngor dylunio, rheoli risg a gwybodaeth am gymdeithasau chwarae rhanbarthol	<a href="http://www.chwaraecymru.org.uk">www.chwaraecymru.org.uk</a>
<b>Gwefan Plentynod Chwaraeus</b>	Cyngor a syniadau ar gyfer cefnogi chwarae mewn cymunedau lleol	<a href="http://www.plentynodchwareus.cymru">www.plentynodchwareus.cymru</a>

## Diolchiadau

Wrth ddatblygu pecyn cymorth cymunedol *Datblygu a rheoli mannau chwarae*, hoffem ddiolch am a chydabod cyfraniad aelodau Panel Cyfran Deg Ynys Môn yn ystod drafftio'r argraffiad cyntaf o'r pecyn cymorth hwn. Yn enwedig: Delyth Owen, Dafydd Myrddin Hughes, Dafydd Beech, Jimmy Lee, Siwan Owens, Medrwn Môn a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Hamdden Ynys Môn am eu cyfraniad parhaus ac i'r cyn-Gadeirydd, Oscar Mathieson.







[www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)